


# Llwybr Arfordir Cymru

## Pecyn Cymorth Busnes

**Gwanwyn 2023 | Fersiwn 1.0**



# Llwybr Arfordir Cymru
## Pecyn Cymorth

Gwanwyn 2023
Fersiwn 1.0


**Ynglŷn â'r Pecyn Cymorth** .... 5

**Pam ddylech ddefnyddio'r Pecyn Cymorth** .... 5

**Ffeithiau Llwybr Arfordir Cymru** .... 6

**Y cyfle Llwybr Arfordir Cymru** .... 7

**Llwybr Arfordir Cymru mewn ffeithiau & ffigyrau** .... 8

**Dyddiadur digwyddiadau Llwybr Arfordir Cymru** .... 8

**Hyrwyddo Llwybr Arfordir Cymru**
Llwybrau .... 10
Sut i gyrraedd eich cwsmeriaid .... 11
Cronfeydd data .... 12
Cylchlythyrau .... 12
Cyfryngau cymdeithasol .... 13
Adborth .... 14
Cadwch yn gyfredol .... 14
Ap Llwybr Arfordir Cymru .... 15
Prosiect Newydd ar gyfer 2023
Prosiect Coast Snap .... 16
Siop Llwybr Arfordir Cymru .... 17
Teithiau cerdded newydd .... 18
Creu cynigion arbennig .... 19
Defnyddio'r iaith Gymraeg .... 19

**Sut i Ddatblygu Ymgyrch Marchnata** .... 21

**Sut i Ysgrifennu Datganiad i'r Wasg** .... 24

**Cael y Gorau o'ch Gwefan** .... 26

**Defnyddio Fideo** .... 29

**Datblygu Ymweliadau Ymgyfarwyddo Cyfryngau** .... 32

**Manteisio ar y Tymhorau** .... 35

**Mynediad i bawb** .... 36

**Cynnwys Staff** .... 38

**Gweithio ar y Cyd** .... 40

**Deunyddiau Marchnata** .... 42
Defnydd y logo / Poster .... 42
Cyffredinol .... 43
Neges Croeso i Gerddwyr mewn ieithoedd tramor allweddol .... 44
Buddion iechyd cerdded Llwybr Arfordir Cymru .... 44
Iechyd a diogelwch .... 45
Mapiau & theithiau cerdded .... 46
Delweddau, ffotograffau a fideos Llwybr Arfordir Cymru .... 46
Gwybodaeth hygyrchedd /anabledd .... 46
Amserlenni llanw .... 46
Trysorau cudd .... 46
Ail-lenwi Cymru .... 47
Twristiaeth Gynaliadwy .... 47
Ymgyrch Addo .... 47

**Enghreifftiau arfer gorau** .... 49
Gwefannau .... 49
Cylchlythyrau .... 49
Esiampl datganiad i'r wasg .... 50



Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

# Llwybr Arfordir Cymru

## Ynglŷn â'r Pecyn Cymorth

# Ynglŷn â'r Pecyn Cymorth

Croeso i Becyn Cymorth marchnata Llwybr Arfordir Cymru - deunydd ar-lein rhad ac am ddim i holl fusnesau arfordirol. Fe'i dyluniwyd i fod yn hawdd i'w ddefnyddio, gan roi mynediad i ystod eang o ddeunydd a gwybodaeth i chi, llawer o'r rhain gellir eu lawr lwytho. Bydd defnyddio'r pecyn cymorth yn eich helpu i farchnata'ch busnes yn llwyddiannus gan ddefnyddio atyniad Llwybr Arfordir Cymru 870-milltir o hyd - y llwybr arfordirol di-dor hiraf o gwmpas gwlad.

Mae'r Llwybr yn barod yn denu miloedd o ymwelwyr yn llwyddiannus bob blwyddyn a gan wneud defnydd o'r syniadau o fewn y Pecyn Cymorth yma gallwch chi rannu yn y llwyddiant hwnnw - gan ddenu cwsmeriaid newydd i ddefnyddio'ch cynnyrch a gwasanaethau.

Gyda chymorth y Pecyn Cymorth yma byddwch yn gallu rhoi ystod o gynlluniau a syniadau marchnata a hyrwyddo at ei gilydd. Mae fel cael eich tîm marchnata eich hunain ar-lein.Mae hefyd yn darparu gwybodaeth diogelwch defnyddiol i'ch helpu i hyrwyddo Llwybr Arfordir Cymru'n gyfrifol ac annog mwynhad diogel yr arfordir Cymreig.

### Pam ddylech ddefnyddio'r Pecyn Cymorth

**Nid yw marchnata eich busnes yn hawdd – mae'n cymryd amser, ymdrech a chyllid nid ansylweddol. Felly, rydym wedi creu'r adnodd ar-lein yma'n arbennig i chi.**

Gwnewch ddefnydd ohoni ac mae gennych fynediad parod i arbenigwyr marchnata, cysylltiadau cyhoeddus a chyfryngau, gan eich galluogi i greu cynlluniau marchnata pwrpasol gyda holl bŵer atyniadol Llwybr Arfordir Cymru syfrdanol.

Byddwch yn dod o hyd i bopeth o fewn y Pecyn Cymorth, o deithiau cerdded a lluniau'r Llwybr Arfordir, i gyngor ar ysgrifennu datganiadau i'r wasg, gwella'ch gwefan, dod yn chwip ar gyfryngau cymdeithasol a llawer mwy.

Mae gwybodaeth ar deithiau cerdded a lluniau'r Llwybr Arfordir wedi ei mynegeio'n ddaearyddol fel eich bod yn gallu dod o gyd i eitemau perthnasol i'ch anghenion yn gyflym.

**Trwy ddefnyddio'r Pecyn Cymorth byddwch yn gallu adnabod cyfleoedd newydd i farchnata'ch busnes i gerddwyr trwy greu cynigion newydd a chynnyrch deniadol iddynt, megis:**

- mentrau marchnata ar y cyd
- ymgyrchoedd cyfryngau
- gweithgaredd cyfryngau cymdeithasol
- cynigion arbennig & hyrwyddo

**Bydd y rhain i gyd yn helpu chi i:**

- gyrraedd cwsmeriaid newydd
- adeiladu busnes newydd

**A gorau i gyd – mae'n RHAD AC AM DDIM!**

## Wyddoch chi?

- Mae ymwelwyr â Llwybr Arfordir Cymru yn gwneud cyfraniad sylweddol i economi Cymru.
- Mae Llwybr Arfordir Cymru yn helpu cefnogi llawer o fusnesau a swyddi.
- Mae pobl yn ymweld â Llwybr Arfordir Cymru oherwydd ei olygfeydd naturiol gwych, ei fywyd gwyllt a'i deithiau cerdded penigamp – pob dim, o daith hamddenol i heic go iawn.
- Roedd arfordir Cymru a'i hafonydd mewndirol o bwysigrwydd arwyddocaol yn hanes hynafol Prydain pan oedd y rhanbarth yn cael ei hadnabod wrth yr enw Prydein – enw y credir iddo gael ei gamddefnyddio wrth gyfieithu dogfennau gwreiddiol i olygu Prydain gyfan.

EWCH NÔL I'R CYNNWYS

# **Llwybr Arfordir Cymru** Ynglŷn â'r Pecyn Cymorth

## Dyma rai ffeithiau efallai nad oeddech yn eu gwybod am arfordir Cymru:

**Mae Llwybr Arfordir Cymru yn 870 milltir o hyd ac yn un o'r ychydig lwybrau troed yn y byd sy'n dilyn morlin cenedl.**

- Mae'n cysylltu â Llwybr Clawdd Offa yn y Gogledd a'r De gan alluogi cerddwyr i gerdded o amgylch Cymru gyfan
- Mae gan Gymru fwy o draethau Baner Las fesul milltir nag unman arall yn y DU.
- Mae Llwybr Arfordir Cymru yn cynnig golygfannau perffaith ar gyfer cadw golwg am lamidyddion, dolffiniaid a hyd yn oed morfilod weithiau.
- Gellir gweld dros 2000 o barau o fôr-wenoliaid pigddu yn ystod misoedd yr haf ym Mae Cemlyn, Ynys Môn
- Gall y palod sydd i'w gweld ar hyd Llwybr Arfordir Cymru ddal hyd at 60 o bysgod yn eu pig ar unrhyw un adeg.
- Mae gan Fae Ceredigion un o'r poblogaethau lled-breswyl mwyaf o ddolffiniaid trwynbwl yn y DU
- Yn ystod y gaeaf mae miloedd o adar dŵr a rhydwyr i'w gweld yn Aber Afon Dyfrdwy
- Mae un o'r murmuriadau mwyaf trawiadol gan adar drudwy i'w weld ger Pier Aberystwyth
- Mae bron i 3000 o longddrylliadau o fewn 2km oddi ar arfordir Cymru.
- Mae 30 o orsafoedd bad achub RNLI yng Nghymru a 40 o draethau dan ofal achubwyr bywyd yr RNLI
- Mae criwiau bad achub ac achubwyr bywyd gwirfoddol yr RNLI yng Nghymru yn achub ac yn cynorthwyo mwy na 3000 o bobl bob blwyddyn.
- Mae 16 o gestyll ar y llwybr neu'n agos ato
- Mae teithlyfrau ar gael ar gyfer pob rhan o'r llwybr
- Gall y rhai sy'n cwblhau adrannau lenwi pasbortau er mwyn dogfennu eu taith a chasglu bathodynnau a thystysgrifau cyflawniad
- Mae nifer o drefnwyr teithiau a thywyswyr arbenigol yn gweithredu ar hyd y llwybr.
- O'r nesaf peth i ddim i foethusrwydd, o wersylla ar ben clogwyni i westai pum seren – mae dewis o lety ar hyd llwybr yr arfordir.
- Mae tri o'r pum bwyty Michelin yng Nghymru yn agos at y llwybr ac mae gan un arall wobr Michelin Bib Gourmand am fwyd o ansawdd rhagorol, gan gynnig rhywbeth i bawb ym mhob adran bris.
- Mae 651 o orsafoedd Ail-lenwi ar neu o fewn cwmpas milltir i Lwybr Arfordir Cymru

EWCH NÔL I'R CYNNWYS

# Y Cyfle Llwybr Arfordir Cymru

**Mae Llwybr Arfordir Cymru yn 870 milltir o gyfle busnes. Mae'r daith yma o gwmpas arfordir Cymru'n eich galluogi i farchnata'ch busnes i'r miloedd sy'n cerdded yr arfordir bob blwyddyn.**

O deuluoedd ifanc, i barau wedi ymddeol, i bobl sengl i chwilwyr anturiaeth – defnyddiwch y pecyn cymorth i ddarganfod ffyrdd gellych sicrhau eu bod yn dod yn gwsmeriaid i chi. Mae Llwybr Arfordir Cymru yn frand eiconig, rhyngwladol sy'n cysylltu chi a'ch busnes i farchnad defnyddiwr eang ac amrywiol.

Felly, beth allwch chi gynnig bydd yn apelio i gerddwyr Llwybr Arfordir? Gwelwch y syniadau yma a chymrwch olwg ar y dolenni gwe LLWYBR ARFORDIR Cymru am fwy o wybodaeth.

- Cynnig cyfleuster sychu dillad
- Casgliad o aros mannau bysiau neu drenau
- Darparu amserlenni bys a thrên

AMSERLENNI

- Cynnig manylion cyswllt ar gyfer busnesau lleol defnyddiol, megis tacsis, hurio beiciau, hurio ceir ayyb
- Cynnig mapiau a theithiau cerdded gellir eu lawr lwytho o'ch gwefan + gwybodaeth ar deithiau cerdded

CYNLLUNIWCH EICH YMWELIAD

- Diodydd a byrbrydau rhad ac am ddim ar gyfer cŵn
- Bagiau baw ci rhad ac am ddim
- Casglu bagiau a chesys

BAGIAU A CHESYS

- Darparu pecyn cinio
- Cynnig gwybodaeth leol – y teithiau cerdded arfordirol gorau, llefydd da i fynd am ddiod/cinio

TEITHIAU CERDDED BYR | HIR

- Benthyg ffyn cerdded
- Darparu parc beiciau diogel
- Darparu gwybodaeth diogelwch gan gynnwys amserlenni llanw

DIOGELWCH

AMSERLENNI LLANW

Cymrwch olwg ar wefan Croeso Cymru am fwy o syniadau a chyngor rhad ac am ddim:




## Llwybr Arfordir Cymru mewn ffeithiau & ffigyrau

**Llwybr Arfordir Cymru yw un o'r ychydig lwybrau troed yn y byd i ddilyn arfordir gwlad gyfan.**

O deithiau cerdded pen clogwyn i draethau diarffordd i ddarganfod ailddatblygiad cyffrous Bae Caerdydd - mae Llwybr Arfordir Cymru 870-milltir o hyd yn cynnig ystod eang o deithiau cerdded golygfaol i ymwelwyr. Nid oes rhaid bod yn gerddwr brwd i fwynhau'r Llwybr Arfordir gan fod darnau hawdd a byr am daith cerdded sydyn a hawdd yn ogystal â heiciau hirach, mwy heriol.

EWCH NÔL I'R CYNNWYS


# **Llwybr Arfordir Cymru** Ynglŷn â'r Pecyn Cymorth

**Cymrwch olwg ar wefannau partneriaid swyddogol Llwybr Arfordir Cymru.**

Yma gwelwch wledd o wybodaeth ynglŷn â gweithgareddau yn eich ardal:

- Croeso Cymru
- Cronfa Datblygu Ranbarthol Ewrop
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Cyngor Sir y Fflint
- Cyngor Sir Ddinbych
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cyngor Sir Ynys Môn
- Cyngor Gwynedd
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
- Cyngor Sir Powys
- Cyngor Sir Ceredigion
- Cyngor Sir Benfro
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
- Cyngor Sir Gâr
- Cyngor Dinas a Sir Abertawe
- Cyngor Castell-nedd Port Talbot
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Cyngor Bro Morgannwg
- Cyngor Caerdydd
- Cyngor Dinas Casnewydd
- Cyngor Sir Fynwy
- Cerddwyr Cymru

**Ac am fwy o ffeithiau a ffigyrau sy'n synnu, ewch i Oriel yr Anfarwolion Llwybr Arfordir Cymru**




**Dyddiadur digwyddiadau Llwybr Arfordir Cymru**

**Rhowch reswm arall i'ch cwsmeriaid ymweld â chi drwy gynnwys manylion digwyddiadau yn eich ardal ar eich gwefan ac eich llenyddiaeth marchnata.**

Gallwch weld beth sydd yn digwydd ar hyd Llwybr Arfordir Cymru drwy ymweld â gwefan Llwybr Arfordir Cymru.

DIGWYDDIADAU

EWCH NÔL I'R CYNNWYS



Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

# Llwybr Arfordir Cymru

## Hyrwyddo Llwybr Arfordir Cymru

**Llwybr Arfordir Cymru**
Hyrwyddo Llwybr Arfordir Cymru

EWCH NÔL I'R CYNNWYS

# Llwybrau

**Mae Croeso Cymru yn gwahodd ymwelwyr a phobl Cymru i ddilyn llwybrau a chreu eu llwybrau epig eu hunain yng Nghymru yn ystod 2023.**

Mae "Blwyddyn Llwybrau" yn adeiladu ar lwyddiant pum mlynedd â thema Croeso Cymru hyd yn hyn – Antur, Chwedlau, y Môr, Darganfod a'r Awyr Agored. Mae'r blynyddoedd â thema yn cefnogi'r nod strategol o ehangu twristiaeth, cynyddu gwariant a denu ymwelwyr ym mhob tymor, drwy gyflwyno Cymru fel cyrchfan cynhwysol sydd ar agor drwy gydol y flwyddyn.

Mae'r thema Llwybrau yn cael ei harwain gan brofiadau ac mae'n ddigon syml i gynnwys amrediad eang o ddiddordebau o fewn y DU ac yn rhyngwladol. Mae hefyd yn ddigon hyblyg fel y gall partneriaid, cyrchfannau a busnesau twristiaeth, boed yn rhai mawr neu fach, gymryd rhan a'i chefnogi.

Yn y byd ar ôl y pandemig, mae ymchwil yn dangos bod pobl yn ceisio profiadau a arweinir sy'n eu hailgysylltu, boed hynny â threftadaeth, diwylliant, natur neu'r gymuned.

Maen nhw am gael eu hysbrydoli, ac yn chwilio am awgrymiadau rhyng-gysylltiedig wedi'u teilwra – teithiau wedi'u hargymell drostyn nhw yn hytrach na dewisiadau di-ben-draw. Gyda themâu mor amrywiol â Monet (Amgueddfa Cymru) a mynyddoedd, a thraethau a threfi, mae llwybrau ar gyfer pob math o fusnes a rhywbeth at ddant pob ymwelwr.

Yn ogystal â llwybrau eiconig Cymru fel Llwybr Arfordir Cymru, mae'r thema yn annog ymwelwyr i greu eu teithiau eu hunain – gallai'r rhain gynnwys Safleoedd Treftadaeth y Byd UNESCO yng Nghymru, gan gynnwys safle mwyaf newydd Cymru, sef Tirwedd Lechi'r Gogledd-ddwyrain; canolfannau beicio mynydd; ardaloedd awyr dywyll; teithiau bwyd; cestyll a llawer mwy.

Mae'r canllaw ['Llwybrau'] yn ogystal â logo, canllawiau logo a delweddau o ansawdd ar gael, fel y gall partneriaid yn y diwydiant eu lawrlwytho a'u defnyddio ar gyfer marchnata "Llwybrau". Cymerwch olwg arnynt a'u lawrlwytho ar Assets:

Llwybrau | Visit Wales.



# Sut i gyrraedd eich cwsmeriaid

**Mae angen bob math o gynnyrch a gwasanaethau ar y rhai sy'n cerdded neu yn ymweld ag ardaloedd o'r Llwybr Arfordir ac fel busnes arfordirol rydych wedi'ch lleoli'n berffaith i'w darparu hwy.**

Rydych chi'n gwybod pa mor dda rydych chi: sut mae'ch stafelloedd clud yn cynnig croeso cynnes; sut mae'r bwyd yn eich bwyty'n rhy dda i'w golli neu efallai rydych yn rhedeg atyniad ymwelwyr sy'n gyffrous ac yn cynnig profiadau unigryw i ymwelwyr y Llwybr Arfordir. Ond ydy'r miloedd o ymwelwyr hynny sy'n cerdded y Llwybr Arfordir bob blwyddyn yn gwybod? Camwch yn ôl a rhoi'ch hyn yn lle eich cwsmer. Efallai nad yw'r hynny sy'n amlwg i chi yn amlwg i'r rhai sydd erioed wedi ymweld - felly dywedwch wrthynt.

Byddwch yn glir ynghylch beth rydych yn ei gynnig. Edrychwch o'ch cwmpas a gwelwch ddigon o esiamplau o'r gwefan gwesty nad yw'n sôn am yr ystod lawn o'i wasanaethau; y parc antur sydd ddim yn rhestru'i oriau agor neu'r bwyty nad yw'n arddangos bwydlenni sampl ar ei wefan.

**Mae'r esgeulustra yma'n rhwystr i fusnes. Rydych mwy neu lai'n troi cwsmeriaid i ffwrdd gan na fydd lawer o bobl yn fodlon treulio amser yn ymchwilio'ch gwefan am wybodaeth nad yw'n amlwg yn syth.**



**Felly, gwnewch yn siŵr:**

- bod eich holl ddeunyddiau marchnata – gwefan, llyfryn ayyb – yn datgan yn glir a syml beth rydych yn ei gynnig trwy nodi pwyntiau gwerthu allweddol eich busnes sy'n ddeniadol i gerddwyr.
- rydych yn ei wneud yn hawdd i gwsmeriaid gysylltu â chi a chael sgwrs ddwyffordd gyda chi - felly cynhwyswch rifau ffôn, cyfeiriadau e-bost ayyb sy'n hawdd a hygyrch.
- nad ydych yn dweud wrth gwsmeriaid gysylltu â chi ar **gwybodaeth@unrhywfusnesarall.co.uk** Personolwch eich perthynas a defnyddio enw yn y manylion cyswllt.
- eich bod yn defnyddio ffotograffau ansawdd dda i ddarlunio'ch cynnyrch a gwasanaethau. Mae'r Pecyn Cymorth yn cynnwys dolenni i lyfrgell ffotograffau enfawr rhad ac am ddim - golygfeydd syfrdanol o'r Llwybr Arfordir ac ardaloedd cyfagos. Felly gwnewch ddefnydd ohonynt - dangoswch i'ch cwsmeriaid bod eich busnes wedi'i leoli wrth arfordir sy'n cymryd eich anadl.

LLYFRGELL ASEDAU CROESO CYMRU

EWCH NÔL I'R CYNNWYS

**Llwybr Arfordir Cymru**
Hyrwyddo Llwybr Arfordir Cymru

### Gallwch ddefnyddio delweddau Llwybr Arfordir Cymru:

- Ar eich gwefan, mewn llyfrynnau neu ar gyfryngau cymdeithasol megis Twitter ac Instagram
- I ddarlunio porwyr ystafell wely gwesty a gwely a brecwast
- I wneud gwybodaeth rydych yn gyrru i gwsmeriaid yn fwy diddorol

Wrth feddwl am adeiladu cwsmeriaid cofiwch o hyd pa mor bwysig yw cadw'ch cwsmeriaid cyfredol. Felly, peidiwch anwybyddu'r rhai hynny rydych yn eu gwasanaethu'n barod.

### Felly, gwnewch yn siŵr:

- Rydych yn adeiladu a chynnal a chadw cronfa ddata cwsmeriaid
- Rydych yn diweddaru'ch cwsmeriaid, efallai trwy gylchlythyr a chyfryngau cymdeithasol
- Rydych yn defnyddio digwyddiadau Llwybr Arfordir Cymru i helpu chi greu pecynnau a chynigion arbennig.

Edrychwch am bethau *"ychydig yn wahanol"* er enghraifft, mae Canolfan Gerdd William Mathias yng Nghaernarfon yn elusen sy'n cynnal cyngherddau mewn lleoliadau agos at y Llwybr Arfordir megis Eglwys Sant Fair yng Nghaernarfon, Eglwys Sant Hywyn, Aberaeron, a Phlas Glyn y Weddw, Llanbedrog.



### Cronfeydd data

**Gwnewch yn siŵr eich bod yn cymryd manylion cyswllt eich cwsmeriaid a chael eu caniatâd i'w hysbysu gyda diweddariadau ynglŷn â beth rydych chi a'ch busnes yn ei wneud.**

Gallwch wneud hyn yn hawdd gan roi cwestiwn ar eich gwefan tebyg i: *"Fyddwch chi'n hoffi derbyn ein cylchlythyr?"* neu "*Cliciwch yma i gael eich hysbysu am gynigion arbennig*".

### Cylchlythyrau

**Mae cylchlythyr syml wedi'i e-bostio'n ffordd hawdd o gadw mewn cysylltiad gyda chwsmeriaid a does dim angen iddo gostio lawer.**

Trefnwch i dempled syml gael ei ddylunio i chi neu defnyddiwch un o'r pecynnau ar-lein rhad ac am ddim. Gyrrwch o i'ch cronfa ddata dim mwy na dau neu tair gwaith y flwyddyn gyda gwybodaeth am beth sy'n newydd yn y busnes neu beth sy'n newid, a manylion unrhyw ddigwyddiadau ar ddod. Cynhwyswch wybodaeth am y Llwybr Arfordir megis *"Pam mae'r gwanwyn yn amser da i ymweld"*, *"Cerdded y Llwybr Arfordir yn yr hydref"*, a manylion defnyddiol megis amseroedd a llwybrau bysiau.

Efallai eich bod wedi ychwanegu gwasanaethau neu gyfleusterau newydd, cyflogi rheolwr blaen tŷ newydd, neu newid eich amseroedd agor. A pheidiwch anghofio cynnwys cynnig arbennig ar gyfer eich cwsmeriaid arbennig.

**Mae yna adran ar wahân ar Greu Cynigion Arbennig yn y Pecyn Cymorth.**

Gwelwch yr Esiamplau Arfer Gorau ar ddiwedd y Pecyn Cymorth am dempled gosodiad cylchlythyr gallwch ei ddefnyddio.

EWCH NÔL I'R CYNNWYS

# **Llwybr Arfordir Cymru** Hyrwyddo Llwybr Arfordir Cymru

## Cyfryngau cymdeithasol

**Mae cyfryngau cymdeithasol yn cynnig ffyrdd gwych o ryngweithio â'ch darpar gwsmeriaid, postio gwybodaeth a sylwadau ac ymateb i beth mae eraill yn ei bostio.**

### Facebook:

Platfform gwych i frolio'ch busnes gyda digon o luniau o Lwybr Arfordir Cymru neu gofynnwch i'ch ymwelwyr roi argymelliadau fideo o'ch busnes yn ymglymu a'u profiad o Lwybr Arfordir Cymru. Gallwch hefyd ddefnyddio'r adran Digwyddiadau Facebook i gysylltu ag adran Digwyddiadau Facebook Llwybr Arfordir Cymru.

LLWYBR ARFORDIR CYMRU

CYMUNED LLAC

### Twitter:

Ffordd wych o gysylltu gyda busnesau arfordirol eraill ac o roi'ch cynigion arbennig o flaen eich dilynwyr. Cofiwch ddod o hyd i a dilyn @walescoastpath ar Twitter. Tagiwch ni yn eich postiau ac ymgysylltu â ni, gwnawn ein gorau i ad-dalu. Edrychwch ar bwy rydym yn ei ddilyn i weld os oes cyfleoedd i ymgysylltu, hyd yn oed os dim ond yn ad-drydaro, a gweld sut gallwch wehyddu Llwybr Arfordir Cymru i'ch gwaith cyfryngau cymdeithasol.

LLWYBR ARFORDIR CYMRU

Gallwch hefyd ddilyn @croesocymru @visitwales ac unrhyw fudiadau y gallwch ddod o hyd iddynt sy'n ymwneud â chynnig arbenigol eich busnes neu bynciau sy'n diddori'r rhai hynny sy'n cerdded y Llwybr - cerdded, bwyd a diod, hanes a llinach leol, ffotograffiaeth, peintio ayyb.

### Instagram:

Oherwydd mae am ddelweddau, defnyddiwch o i arddangos eich busnes gyda Llwybr Arfordir Cymru neu'r arfordir Cymreig yn amlwg yn y llun, yn gwahodd pobl i ddod a mwynhau'r llwybr ac aros, bwyta, neu ymweld â chi.

LLWYBR ARFORDIR CYMRU

### Pinterest:

Rhowch bin yn y syniadau sydd yn werthfawr i chi a Llwybr Arfordir Cymru - llefydd i ymweld â hwy ar hyd y llwybr, llefydd i fwynhau'r olygfa, llefydd i gymryd gorffwys ar gyfer lluniaeth.

LLWYBR ARFORDIR CYMRU



### Defnyddiwch hashnodau:

Hashnodau allweddol Croeso Cymru perthnasol i'r Llwybr Arfordir yw
#llwybrarfordircymru10
#llwybrarfordircymru
#arfordircymru
#arfordir
#cerddedarfordir
#cerddedyrarfordir.

### YouTube:

Mae gan Lwybr Arfordir Cymru ffilmiau gwych o bob cwr o Gymru - ewch i a rhannwch y cynnwys ar eich sianeli cyfryngau cymdeithasol

LLWYBR ARFORDIR CYMRU

EWCH NÔL I'R CYNNWYS

## Adborth

**Anogwch adborth gan eich cwsmeriaid - gall eich darparu gyda gwybodaeth amhrisiadwy ynglŷn â'ch busnes gan eich helpu i fireinio'r cynnyrch a'r gwasanaethau rydych yn eu cynnig.**

Gallwch annog adborth mewn sawl ffordd. Gallwch ddarparu ffrwd Twitter ar eich gwefan, postio adolygiadau cwsmer a darparu'r rhai sy'n ymweld â chi gyda holiadur syml sy'n ymofyn eu sylwadau a safbwyntiau. Pa bynnag ddull(iau) ddefnyddiwch gwnewch yn siŵr bod ymofyn adborth yn rhan reolaidd o'ch gweithgaredd hyrwyddol ac nid yn rhywbeth gwnewch dim ond rŵan ac yn y man.

## Cadwch yn gyfredol

**Mae marchnata da o'ch busnes yn dod a chi'n agosach at eich cwsmeriaid ac yn gallu cryfhau'r perthynas sydd gennych gyda hwy, gan adeiladu teyrngarwch.**

Mae creu'r sgwrs ddwyffordd yma gyda'ch cwsmeriaid yn golygu bod rhaid cadw sianeli hyrwyddol yn gyfredol. Felly edrychwch ar eich gwefan yn rheolaidd a gwneud newidiadau cynnil. Does dim angen i chi dalu i adnewyddu'ch gwefan ar sail reolaidd, ond mae'n rhaid i chi ei gadw'n gyfredol.

Felly, pam na wnewch chi drio:

- Cael adran neu banel *"beth sy 'mlaen"* ar eich gwefan gyda manylion y digwyddiadau diweddaraf - pethau'n digwydd yn eich busnes ac ar hyd Llwybr Arfordir Cymru; a thudalen *"Newyddion"* lle gallwch bostio gwybodaeth ar y busnes; a phostio trydaron diweddar.

- Darparu dolenni ar eich gwefan i wefannau partneriaid a pheidiwch anghofio cysylltu i **Lwybr Arfordir Cymru.**

- Llunio cynllun hyrwyddol yn nodi beth rydych am ei wneud a phryd. Os rowch awr neu ddwy'r wythnos i'r neilltu byddwch yn gallu cadw popeth yn gyfredol a medi'r buddion, oherwydd byddwch yn fusnes gyda neges graidd i'ch cwsmeriaid a darpar gwsmeriaid sef: *"Mae be rydym yn ei wneud yn bwysig i ni, ac rydym eisiau i'ch ymweliad â ni fod yn un arbennig!"*

Beth bynnag rydych yn ei wneud – gwnewch o'n rheolaidd. Bydd yn cymryd ychydig o'ch amser, ond bydd cadw popeth yn ffres yn golygu gallwch roi terfyn ar faint o amser treuliwch ar y dasg. Bydd y buddion werth y gwaith.

Am fwy o syniadau am farchnata eich busnes cymrwch olwg ar y gwefannau rhestrwyd yma.

Gwefannau ymwelwyr - mae'r tudalennau gwe yma'n darparu gwybodaeth ar gyfer ymwelwyr i'ch ardal. Bydd gan lawer tudalen penodol ar wyliau cerdded.

Bydd yn syniad da i chi gysylltu'ch gwefan i rai o'r cyfeiriadau yma - gall hynny wella gweledd eich gwefan a helpu gyda rhengoedd Google.

- www.newport.gov.uk/en/Leisure-Tourism/Visit-Newport/
- www.croesocaerdydd.com/
- www.visitthevale.com/
- www.southernwales.com/
- www.visitnpt.co.uk/
- www.croesobaeabertawe.com/
- www.cy.visitllandudno.org.uk/
- http://www.darganfodsirgar.com/
- www.visitpembrokeshire.com
- www.discoverceredigion.co.uk
- www.visitsnowdonia.info/
- www.croesomon.co.uk/cy/
- www.discoverdenbighshire.wales/
- http://discoverflintshire.co.uk/
- http://www.northeastwales.wales/?lang=cy

Masnach twristiaeth - anelwyd y rhain at y rhai hynny yn y busnes twristiaeth a hamdden a bydd ganddynt syniadau ar hyrwyddo a sut gallwch weithio mewn partneriaeth â marchnatwyr proffesiynol. Siaradwch gyda'ch swyddog twristiaeth awdurdod lleol a darganfod y gwefan masnach twristiaeth ar gyfer eich ardal chi. Dyma un esiampl: www.abertawe.gov.uk/yfasnachdwristiaeth

EWCH NÔL I'R CYNNWYS

**Llwybr Arfordir Cymru**
Hyrwyddo Llwybr Arfordir Cymru

# Ap Llwybr Arfordir Cymru

## Gwella'ch profiad ar y llwybr gyda'n ap

Mae hwn yn ap sy'n seiliedig ar fap i'w ddefnyddio ar ddyfeisiadau clyfar fel eich ffôn neu lechen ac mae'n dangos eich lleoliad ar y llwybr ac yn eich helpu i gynllunio i ble i fynd a dilyn y llwybr. Bydd yr ap yn gwella eich profiad ar y llwybr gyda'r ddwy swyddogaeth arbennig hyn:

- Olrhain eich cynnydd – gallwch recordio a chadw eich teithiau cerdded ac olrhain faint o'r llwybr ydych chi wedi'i gwblhau,
- Profiad digidol unigryw y bydd y rhai sy'n cerdded y llwybr yn unig yn ei gael fel arfer.

Whatever you do, walk one mile or the whole 870 miles, our app will show you exactly where you are on the route.

Mae'r swyddogaeth olrhain neu dracio yn ardderchog ar gyfer:

- Eich cadw ar y llwybr cywir – bydd yn dangos i chi ble ydych chi ar y llwybr a'r cyfeiriad i'w ddilyn
- Cofnodi a chadw eich teithiau yn yr ap
- Olrhain eich cynnydd ar bob rhan o'r llwybr ac yn gyffredinol.
- Awgrymu teithiau cerdded yn yr ardal – os ydych eisiau crwydro ymhellach.
- Darganfod mannau o ddiddordeb ar y map i wneud y mwyaf o'ch amser ar y llwybr.

## Lawrlwytho'r ap

**Chwiliwch am "Llwybr Arfordir Cymru" ar ddyfeisiau iOS ac Android.**

Lawrlwythwch o'r Apple App Store
(dyfeisiau iOS)

Lawrlwythwch o'r Google Play Store
(Android)

Rydym yn argymell lawrlwytho'r ap cyn i chi ymweld â'r byrddau gwybodaeth i gael profiad di-dor.

You can download the app at each information board - data allowing / 3G and 4G signal permitting.

Only information relevant to the information board location will be downloaded to your device.






Unwaith y byddwch wedi lawrlwytho'r ap a'i agor ar eich dyfais pwyntiwch hi i gyfeiriad y bwrdd gwybodaeth i ddatgloi'r nodweddion arbennig yn yr ap. Mae hyn yn actifadu gêm, nodwedd realiti estynedig neu fideo 3D sy'n adrodd stori am y rhan honno o'r llwybr i chi mewn ffordd hwyliog a gwahanol.

EWCH NÔL I'R CYNNWYS

**Llwybr Arfordir Cymru**
Hyrwyddo Llwybr Arfordir Cymru

EWCH NÔL I'R CYNNWYS




# Prosiect Newydd ar gyfer 2023 Prosiect Coast Snap

**Pwyswch ar fotwm y camera 'na! Rydan ni angen eich cymorth.**

Yn ystod y Gwanwyn byddwn yn lansio prosiect newydd sy'n canolbwyntio ar gofnodi newidiadau i Forlin Cymru ac rydym ni angen cerddwyr i dynnu lluniau o'r arfordir a'u hanfon inni fel y gallwn ddod i ddeall sut mae'r arfordir yn newid. Bydd y lluniau yn cyfrannu at brosiect gwyddoniaeth-dinasyddion byd-eang i gofnodi ein harfordiroedd sy'n newid. Edrychwn am 'grud' pwrpasol ar eich siwrne neu chwiliwch am y lleoliadau diweddaraf ar y map www.wcmc.wales/coastsnap

Lleoliadau i gynnwys:

- Porthcawl
- Cardiff Bay Barrage
- Laugharne
- Aberystwyth
- Llandudno prom
- Rhyl prom
- Talacre
- Cricieth
- Beaumaris
- Black Rock Picnic Site
- Port Talbot
- Goldcliffe
- Tenby
- Langland Bay
- Penarth



# Siop Llwybr Arfordir Cymru

**Rydyn ni wedi lansio casgliad o nwyddau'n ddiweddar - detholiad deniadol o gofroddion, dillad ac anrhegion gyda'n brand. Yn ystod 2023 bydd casgliad mwy o nwyddau'n cael ei ddatblygu ac anrhegion unigryw sydd wedi'u creu gan gynhyrchwyr o Gymru. Mae'r rhain i gyd yn cael eu cynhyrchu'n foesegol a bydd yr holl elw yn dychwelyd i ofalu am y llwybr.**

Ar hyn o bryd gellir prynu'r casgliad ar-lein Siop Llwybr Arfordir Cymru. Mae'n bosibl i fusnesau stocio rhai o eitemau'r casgliad. Cysylltwch ag ian@promotionalwarehouse.co.uk i drafod y cyfleoedd hyn.




EWCH NÔL I'R CYNNWYS

# Llwybr Arfordir Cymru
Hyrwyddo Llwybr Arfordir Cymru

## Teithiau cerdded newydd

**Rydym wedi datblygu 50 o deithiau cerdded newydd yn cwmpasu'r llwybr 870 milltir gyfan i helpu pobl leol ac ymwelwyr fel ei gilydd i ddarganfod ffyrdd newydd a chyffrous o grwydro arfordir Cymru.**

### Wedi'u cynllunio gan y rhai sy'n adnabod ac yn caru'r llwybr

Wedi'u cynllunio gan y rhai sy'n adnabod ac yn caru'r llwybr. Mae'r llwybrau newydd hyn, wedi'u cynllunio'n benodol gan rwydwaith o swyddogion sy'n treulio'u diwrnodau yn rheoli ac yn mwynhau'r llwybr.

Byddant yn anelu at sicrhau bod y llwybr ar gael i bob oedran a gallu, a bydd y llwybrau'n cael eu grwpio o dan themâu penodol.

**Mae gennym gasgliad o hyd at 80 o deithiau themedig, o deithiau cerdded heriol dros sawl diwrnod i deithiau hamddenol. Dylech annog eich ymwelwyr i gadw'n ddiogel drwy ddilyn [Y Cod Cefn Gwlad.](#)**

**Rydym hefyd wedi datblygu teithiau cerdded difyr eraill i gyfuno taith gerdded arfordirol ardderchog â darganfod mwy am hanes a diwylliant lleol Cymru.**

**Mae'r teithiau cerdded hyn, a ddatblygwyd mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth yr Eglwysi Cenedlaethol, yn cyfuno taith gerdded ar y llwybr ag ymweliad â rhai o leoedd treftadaeth sanctaidd Cymru.**

**Ewch i'n tudalen Teithiau Cerdded am fwy gwybodaeth.**
**www.walescoastpath.gov.uk/plan-your-visit/itineraries/?lang=cy**

## Beth am ddefnyddio'r teithiau newydd i roi hwb i'ch busnes?

- **Creu dolenni o'ch gwefan i'r teithiau perthnasol gan annog cerddwyr i ymweld â'ch busnes.**
- **Rhannwch y teithiau ar eich sianel cyfryngau cymdeithasol a thynnu sylw at sut y gall eich busnes wella'r profiad**
- **Argraffwch nhw a'u rhannu gyda'ch gwesteion, gan eu hannog i gerdded y llwybr gan gynnig awgrymiadau lleol.**



EWCH NÔL I'R CYNNWYS

## Creu cynigion arbennig

**Fel rhan o unrhyw fenter marchnata, mae cynigion arbennig yn ffordd dda o ddenu a chynnal diddordeb cwsmeriaid yn eich cynnyrch a gwasanaethau.**

Gydag ystyriaeth gofalus nid oes rhai iddynt eich cyflwyno â chost sylweddol, ac wedi eu gosod yn erbyn y busnes ychwanegol gallent ddod i chi, gallent fod yn ddull cost-effeithiol iawn o gynyddu gwerthiannau.

Unwaith eto, gall y Llwybr Arfordir fod o gymorth. Mae yna lawer o ddigwyddiadau wedi'u trefnu o gwmpas yr arfordir, o dro bach mwyn a theithiau cerdded Crwydrwyr i ŵyliau a dathliadau. Mae'r rhain i gyd yn rhoi cyfle i chi i hyrwyddo'ch busnes.


### Felly, pam ddim:

- Rhedeg cystadleuaeth ar eich gwefan i gyd-fynd â digwyddiad Llwybr Arfordir
- Cynnig gostyngiad i gerddwyr ar eich cynnyrch & gwasanaethau
- Darparu "Brecwast Cerddwr" yn arddangos cynnyrch ffres Cymreig
- Darparu mapiau, pas i fan cychwyn taith gerdded, rhifau cyswllt ar gyfer tacsis
- Hysbysebu'r ffaith bod gan eich gwesty neu wely a brecwast gyfleusterau arbennig ar gyfer cerddwyr - megis ystafell ar gyfer sychu dillad cerdded gwlyb
- Creu cerdyn teyrngarwch i wobrwyo cwsmeriaid rheolaidd
- Darparu gwesteion gyda mapiau rhad ac am ddim
- Arddangos amserlenni llanw i westeiwyr ddarllen

### Defnyddio'r iaith Gymraeg

**Mae'n iaith unigryw ni yn ased anferthol. Mae defnyddio'r iaith Gymraeg yn ffordd wych o wneud eich busnes yn nodedig.**

Mae Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn cynnig ystod o gyngor ac awgrymiadau ar sut i gyflwyno'r iaith i weithredoedd bob dydd eich busnes. Ewch i:




EWCH NÔL I'R CYNNWYS



Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

# Llwybr Arfordir Cymru

## Sut i Ddatblygu Ymgyrch Marchnata

# **Llwybr Arfordir Cymru** Sut i Ddatblygu Ymgyrch Marchnata

EWCH NÔL I'R CYNNWYS

**Y ffordd orau i hyrwyddo'ch busnes i gerddwyr yn defnyddio'r Llwybr Arfordir am gost fechan yw defnyddio ystod eang o gyfryngau a chyflwyno gwybodaeth yn rheolaidd er mwyn adeiladu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth.**

Mae marchnata llwyddiannus i gyd yn cael ei gynllunio o flaen llaw – gan nodi hwyrach tri neu bedwar prif gyfle i gyfathrebu dros flwyddyn i greu ymgyrch sylfaenol.

**Ar bob un o'r tri achlysur, defnyddiwch wybodaeth bydd yn apelio i ddiddordebau cerddwyr Llwybr Arfordir nodweddiadol, o'r rhain mae pedwar prif grŵp:**

- **Parau hŷn**
  Rhai ar incwm uwch sy'n mwynhau'r atyniadau hanesyddol gallent weld yn ystod eu teithiau cerdded

- **Parau fforio golygfaol**
  Y rhai yn y grŵp oed 40+ sydd wedi priodi ond heb blant ifanc yn byw â hwy ac sy'n mwynhau golygfeydd hardd ac atyniadau cefn gwlad heb ei ddifethaf

- **Teuluoedd**
  Teuluoedd gyda rhieni dan 50 oed a phlant dan 15 oed. Maent yn cymryd gwyliau'n aml, yn anturus ac yn hoffi dysgu am dreftadaeth leol.

- **Fforwyr cyn teulu**
  Pobl a chyplau o dan 35 oed sy'n cymryd gwyliau'n aml ac sydd â diddordeb arbennig mewn gweld golygfeydd ac atyniadau

### Beth yw'ch stori chi?

Mae angen i bopeth rydych yn ei wneud wrth farchnata atgoffa pobl o'ch Pwynt Gwerthu Unigryw (PGU) - y peth sy'n eich gwneud chi'n wahanol ac yn well nac eraill, ac yn berthnasol i gerddwyr Llwybr Arfordir

Unwaith i chi benderfynu beth ydy hynny, mae angen rhesymau, neu *"bachau"* arnoch y gellwch eu defnyddio i gyfathrebu'ch PGU dros amser.

Meddyliwch am eich busnes, beth sydd wedi digwydd yn ddiweddar a beth sydd ar y gorwel. Edrychwch pa ddigwyddiadau sy'n digwydd o gwmpas y Llwybr Arfordir a phenderfynu sut gallech gysylltu'r rhain i greu stori. Ydych chi'n gwneud buddsoddiad newydd, yn cymryd staff newydd? Ydych chi'n lansio cynnyrch neu gynllun newydd wedi'i anelu at gerddwyr? Ydych wedi atynnu ymwelwyr o ochr draw'r byd sy'n cerdded y Llwybr? Ydy hwn yn flwyddyn pen-blwydd i chi?


Dyma'r math o wybodaeth gallwch droi mewn i gyfleoedd marchnata a'u defnyddio i hyrwyddo'ch PGU.

## Anfonwch eich gwybodaeth i ystod o allfeydd, gan gynnwys

### Cyfryngau cymdeithasol

Efallai bod gennych eisoes bresenoldeb ar Facebook, Twitter neu Instagram - maent yn blatfformau allweddol ar gyfer rhyngweithio â darpar gwsmeriaid, postio gwybodaeth a sylwadau ac ymateb i be mae eraill yn bostio. Ond gallwch hefyd ei ddefnyddio mewn ffordd strwythuredig, i gynllunio crynodiad o weithgaredd o gwmpas eich cynllun gweithgaredd marchnata. Gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio hashnodau i ehangu'ch cynulleidfa. Hashnodau Croeso Cymru allweddol berthnasol i'r Llwybr Arfordir yw **#GwladGwlad #FindYourEpic #WalesAdventure #AnturCymru**. Gallwch hefyd ddefnyddio rhai generig megis **#llwybrarfordircymru #arfordircymru #arfordir #arfordirol #cerdded #arfordircymreig**. Mae hashnodau'n annog mwynhad diogel o'r arfordir yn cynnwys **#ParchwchYDŵr #RespectTheWater** a **#BeAdventureSmart #MentronGall**

Cofiwch ddod o hyd i a dilyn @walescoastpath ar gyfryngau cymdeithasol. Tagiwch ni yn eich postiau ac ymgysylltu â ni, gwnawn ein gorau i ad-dalu. . Edrychwch ar bwy rydym yn ei ddilyn i weld os oes cyfleoedd i ymgysylltu, hyd yn oed os dim ond yn ad-drydaro neu rannu, a gweld sut gallwch wehyddu Llwybr Arfordir Cymru i'ch gwaith cyfryngau cymdeithasol.



**Papurau newydd, radio, cylchgronau & theledu**
O wefannau cymunedol i ranbarthol a chyhoeddiadau cenedlaethol ac arbenigol, mae yna ystod enfawr o allfeydd gall gynnwys wybodaeth ynglŷn â'ch busnes.

I ddysgu mwy am sut i gysylltu â hwy a chyflwyno'ch stori, ewch i

Mynd at y Cyfryngau

**Blogwyr**
Tapiwch y gymuned ddirfawr ar-lein o bobl sy'n ysgrifennu am gerdded, teithio a gwyliau, neu am Gymru fel lle i ymweld â hi. Os ydych yn cynnig cynnyrch teulu, plant neu gi cyfeillgar, byddwch yn ffeindio blogwyr yn ysgrifennu am y marchnadoedd arbenigol yma ac eraill. Beth bynnag eich arbenigedd, buan bydd ychydig o ymchwil ar-lein yn canfod rhestr o flogwyr i gysylltu â hwy gyda'ch gwybodaeth. Rhowch "*blogwyr cerdded*" yn eich peiriant pori.

**Rhwydweithiau arbenigol**
Gallwch dargedu mudiadau a chymdeithasau arbenigol yn ymwneud a cherdded, gweithgareddau awyr agored, bwyd a diod, hanes lleol - unrhyw beth sy'n ymglymu â'ch busnes a'r cynnig gallwch ei wneud i gerddwyr Llwybr Arfordir.

**Partneriaethau cymuned leol**
Yn lleol byddwch yn ffeindio cymdeithasau a grwpiau busnes yn gweithio i hyrwyddo'ch ardal leol - gwerthfawr i dapio a rhoi gwybodaeth iddynt am eich stori a'ch cynnig fel eu bod yn gallu pasio'ch manylion ymlaen. Byddant hefyd yn cynnig cysylltiadau ar gyfer datblygu gweithgareddau hyrwyddol ar y cyd gyda busnesau sy'n cyd-fynd a'ch un chi. Am fwy o wybodaeth ar hyn ewch i

Gweithio ar y Cyd

EWCH NÔL I'R CYNNWYS



Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

# Llwybr Arfordir Cymru

## Sut i Ysgrifennu Datganiad i'r Wasg

# Llwybr Arfordir Cymru

## Sut i Ysgrifennu Datganiad i'r Wasg

### Sut i Ysgrifennu Datganiad i'r Wasg

**Yn hanfodol mae angen i ddatganiad i'r wasg ateb chwe chwestiwn sylfaenol: pwy, beth, ble, pryd, pam a sut.**

- Mae angen *"ongl"* ar eich stori - mae angen i chi fynegi beth rydych eisiau ei adrodd i'r cyfryngau fel y cyntaf, y diweddaraf, y mwyaf, y lleiaf, neu fod yn garreg filltir, yn gofnod, yn ben-blwydd - neu'n anarferol tu hwnt.
- Dylid ysgrifennu'ch datganiad i'r wasg mewn e-bost - peidiwch ei atodi i e-bost fel dogfen ar wahân - mae'n cymryd amser i agor a hwyrach ni eith drwy fur gwarchod allfa cyfryngau i gychwyn.
- Ysgrifennwch bennawd byr sy'n dal sylw ac adlewyrchu'ch "ongl" ar gyfer llinell bwnc yr e-bost - h.y. cyntaf, diweddaraf, mwyaf, lleiaf ayyb. Yn yr e-bost ei hun cychwynnwch gyda'r geiriau DATGANIAD I'R WASG ac ailadrodd y pennawd o'r llinell bwnc.
- Rhaid i'r wybodaeth bwysicaf i gyd fod yn uchel yn y datganiad. Ni fydd newyddiadurwr yn darllen yn bellach na hynny cyn penderfynu os yw'r stori'n werth ystyried.
- Tra ni ddylech ysgrifennu copi hysbysebu am eich busnes, mae angen i chi sôn amdano! Ond peidiwch fynd dros ben llestri. Yn gyffredinol, cadwch fanylion am eich busnes i'r ail neu drydydd paragraff, a mynegwch nhw'n ffeithiol heb wneud sylw.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn cynnwys eich holl fanylion cyswllt ar ddiwedd y datganiad - a gwnewch yn siŵr eich bod ar gael pan maent yn galw! Er enghraifft, ysgrifennwch ar waelod y datganiad: Gwybodaeth bellach gan Twm Jones, rheolwr **twmjones22@gmail.com 0234 456375**

**Cymrwch olwg ar Esiamplau Arfer Gorau ar waelod y pecyn cymorth ar gyfer datganiad i'r wasg sampl.**

### Mynd at y cyfryngau

**Buan bydd ychydig o ymchwil ar y we yn dweud wrthych ba bapurau lleol sy'n gweithredu'n eich ardal, pa deitlau arbenigol sy'n cwmpasu meysydd diddordeb perthnasol i'ch busnes, a sut i gysylltu â hwy.**

Penderfynwch i ba fath o gyfryngau bydd eich straeon yn apelio. Mae hyn wir yn fater o ba mor *"newydd"* yw rhywbeth. Gallwch fod yn gwneud rhywbeth nad yw wedi cael ei wneud o'r blaen yn eich ardal leol, a bydd o ddiddordeb i'r cyfryngau lleol, hyd yn oed os mae wedi cael ei wneud rhywle arall yn y wlad. Ni fydd yn apelio i bapur cenedlaethol yn Llundain oherwydd maen nhw'n gwybod ei fod wedi digwydd rhywle arall. Ond os mae beth rydych yn ei wneud heb ei wneud yn y DU erioed - anelwch am y papurau cenedlaethol DU.

Peidiwch anghofio cymryd amseru i ystyriaeth wrth fynd at y cyfryngau. Os oes gennych ddigwyddiad ar y gorwel, er enghraifft, bydd angen i chi adael i'r cyfryngau wybod mewn da bryd - ar gyfer cylchgronau gall hynny fod sawl mis o flaen llaw.

### Cysylltu

Gwnewch eich dynesiad mewn da bryd. Ceisiwch wneud cyswllt cychwynnol gyda'r ddesg newyddion ar y ffôn i gyflwyno'ch stori - gallwch ddilyn y sgwrs drwy yrru datganiad i'r wasg. Weithiau, bydd angen i chi e-bostio datganiad i'r wasg yn gyntaf a gall gael ei ddilyn gan alwad ffôn os mae'n sbarduno diddordeb. Peidiwch anghofio Twitter chwaith fel ffordd o gysylltu â'r cyfryngau - fe'i defnyddiwyd yn aml y dyddiau hyn fel y lle cyntaf mae newyddiadurwr yn edrych am wybodaeth, a'r lle cyntaf maent yn cyhoeddi eu straeon eu hunain.

EWCH NÔL I'R CYNNWYS

Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path



# Llwybr Arfordir Cymru

## Cael y Gorau o'ch Gwefan

# Cael y Gorau o'ch Gwefan

**Mae pobl sy'n pori gwefannau er mwyn penderfynu lle i ymweld â, aros neu fwyta'n ddrwg-enwog o anwadal: os nad ydynt yn hoffi golwg eich gwefan i gymharu ag eraill, neu'n methu dod o hyd i'r wybodaeth maen nhw'i angen o fewn eiliadau, ânt nhw rywle arall.**

Y gyfrinach i wefan sy'n perfformio yw un gellir dod o hyd iddo yn y lle cyntaf, sy'n lân, syml a hawdd ei ddefnyddio, ac sy'n gadael i ymwelydd gael y wybodaeth maent angen a chymryd y weithred rydych chi eisiau iddynt wneud.

Os mae'ch cyllid yn caniatáu, mae cwmni dylunio gwefannau proffesiynol yn ffordd dda o gael eich gwefan yn barod a gweithredol. Gallwch hefyd adeiladu un eich hun gydag un o lawer o becynnau gwych a hawdd i'w defnyddio sydd ar gael ar-lein.

Naill ffordd, mae yna ychydig o awgrymiadau sydd angen cadw mewn cof pan rydych yn datblygu eich gwefan – neu pan rydych yn cyfarwyddo'ch cwmni gwefan i wneud y gwaith.

### Cysylltwch â ni

Ychwanegwch logo Llwybr Arfordir Cymru i'ch gwefan (gallwch ei lawr lwytho o adran Adnoddau'r Pecyn Cymorth hwn) i'w wneud yn amlwg yn syth bod eich busnes yn un arfordirol.

Gallwch hefyd osod dolenni i wefannau Llwybr Arfordir Cymru i ychwanegu gwerth i'ch gwefan.

### Dewch i'r pwynt

Er gallwch gael eich temtio i lenwi gwefannau gyda llwyth o destun manwl, anaml mai dyma beth mae ymwelydd yn chwilio amdano. Mae cyfnod canolbwyntio'n fyr, ac mae ymwelwyr eisiau gwybodaeth wedi'i gyflwyno mewn talpiau bach.

Cofiwch ddefnyddio geiriau allweddol ar eich gwefan sy'n adlewyrchu beth mae Llwybr Arfordir Cymru amdan – cerdded, arfordir a Chymru. Bydd hyn yn helpu i'ch gwefan gael ei ffeindio pan mae pobl yn chwilio gan ddefnyddio'r geiriau hyn.

**Cadwch o'n lân, cadwch o'n syml**

Gwnewch yn siŵr bod eich testun yn ddarllenadwy, heb ei gymylu gan ddelweddau cefndirol neu elfennau wedi'u hanimeiddio sy'n gwrthdynnu'r sylw. Yn aml cefndir gwyn yw'r gorau - gall eiriau ar ben lluniau neu gefndiroedd lliw fod yn anodd i rai eu darllen.

Os ydych eisiau i ddefnyddiwr glicio ar ddolen i ran arall o'ch gwefan, gwnewch yn siŵr bod y ddolen yn amlwg gyda lliw neu wedi'u danlinellu. Peidiwch â gadael hwy'n ceisio dyfalu ble mae angen iddynt glicio.

### Hygyrch o'r holl ddyfeisiau

Os ydych yn edrych ar gynnwys y Pecyn Cymorth hwn ar gyfrifiadur yn eich swyddfa, mae'n debyg eich bod yn y lleiafrif. Mae niferoedd enfawr o bobl rŵan yn pori'r we a gwneud penderfyniadau prynu ar eu ffônau clyfar a thabledi. Sicrhewch gall eich gwefan gael ei weld ar yr holl ddyfeisiau.

### Cysylltwch â'ch cyfryngau cymdeithasol

Cysylltwch eich gwefan yn agos gyda'ch gweithgaredd cyfryngau cymdeithasol, gan ddiweddaru'r platfformau hyn gyda dolenni'n amlygu cynnwys newydd ar eich gwefan. Y mwyaf mae pobl yn 'hoffi' eich gwefan ar Facebook neu'n ei drydara, yr uchaf bydd eich gwefan ar rengau'r peiriannau pori.

### Delweddau a Ffilm

Mae cystadleuaeth yn chwyrn, a bydd ymwelwyr yn disgwyl lluniau o ansawdd uchel fel isafbwynt y dyddiau yma cyn edrych ar wefan gydag unrhyw bwrpas difrifol.

EWCH NÔL I'R CYNNWYS

# **Llwybr Arfordir Cymru**
# Cael y Gorau o'ch Gwefan

EWCH NÔL I'R CYNNWYS

### Lluniau
Mae ffotograffau o ansawdd uchel o Lwybr Arfordir Cymru ar gael i'w lawrlwytho am ddim o gwefan asedau Croeso Cymru.

LLYFRGELL ASEDAU CROESO CYMRU

Rhaid cofrestru i gael at y lluniau.

### Ffilm
Mae ystod amrywiol o ffilmiau a chyfweliadau ansawdd uchel gyda phobl o bob cefndir wrthi'n sôn am yr hyn y mae'r llwybr yn ei olygu iddyn nhw ar ein cyfrif YouTube - gallwch gael atyn nhw a'u rhannu i'ch sianeli cymdeithasol.

LLWYBR ARFORDIR CYMRU

### Gwnewch hi'n hawdd prynu
Os ydych yn gwerthu drwy siop ar-lein neu'n cadw llefydd ar-lein, gwnewch hi'n hawdd. Buddsoddwch mewn trol siopa dda a chynnig cyfleusterau megis cerdyn credid ac opsiynau talu ar-lein eraill, er enghraifft PayPal. Os ydych yn defnyddio gwefan cadw lle trydydd parti, gwnewch yn siŵr arddangoswyd y ddolen iddynt yn glir. Y lleiaf o *"gliciau"* i gael at y man talu, y lleiaf o gwsmeriaid gollwch.

### Gwnewch hi'n hawdd i bobl gael gafael arnoch
Mae gormod o wefannau'r dyddiau hyn nad ydynt yn rhoi enwau na rhifau cyswllt ac yn cuddio tu ôl i'r amhersonol: *"Cwblhewch y ffurflen isod i gysylltu â ni"*. Mae'n hynod anghyfeillgar a digroeso. Rydych yn y busnes lletygarwch! Rhowch eich enw, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost a'u harddangos yn flaenllaw.

### Diweddarwch yn aml
Bydd cynnwys da yn dal sylw eich ymwelwyr ac yn eu hannog i ddod yn ôl



### Darparwch gynnwys sy'n ychwanegu gwerth
Ydan, mae pobl eisiau gwybod amdanoch chi, ond darparwch wybodaeth ddefnyddiol ychwanegol i ddal eu sylw a dangos iddynt fe'u gwerthfawrogwyd - sut i gael at ac yn ôl o'r Llwybr Arfordir, amserlenni bysiau lleol, gwasanaethau tacsi lleol, amseroedd gyrru, toiledau cyhoeddus neu breifat ar gael i gerddwyr yn eich ardal, pwyntiau ail-lenwi poteli dŵr lleol a ffyrdd argymelledig i gael atoch, atyniadau eraill cyfagos, gwybodaeth diogelwch ayyb.

Cymrwch olwg ar yr adran Deunyddiau Marchnata yn y Pecyn Cymorth yma am syniadau ar ddeunyddiau gellir eu lawrlwytho a'u defnyddio ar eich gwefan.

**Cymrwch olwg ar adran Esiamplau Arfer Gorau'r Pecyn Cymorth am fwy o syniadau gwe.**

Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path



# Llwybr Arfordir Cymru
## Defnyddio Fideo

# Defnyddio Fideo

## Pam defnyddio fideo?

**Rydym i gyd yn caru gwylio fideos. Maent yn un o'r ffyrdd gorau o gael gwybodaeth yn gyflym mewn ffordd ddiddan.**

Beth am ddefnyddio peth o'r cynnwys ysbrydoledig a syfrdanol a grëwyd gan Lwybr Arfordir Cymru ar ein sianel YouTube

LLWYBR ARFORDIR CYMRU

- mae yma gymysgedd gwych o ffilmiau tirwedd rhanbarthol, cyfweliadau gyda phobl sy'n caru ac yn gofalu am y llwybr ynghyd â golygfeydd sy'n codi'r ysbryd.

Yn ystod 2022 bydd ffilmiau newydd yn cael eu rhyddhau i gyd-fynd â phen-blwydd Llwybr Arfordir Cymru yn 10 oed.

## Cynllunio fideo

- Beth sy'n gwneud eich busnes yn wahanol i unrhyw un arall? Beth yw'r darn allweddol o wybodaeth rydych eisiau i'r gwyliwr ei gofio? Pa gynnig arbennig gallwch ei wneud i gael pobl sy'n cerdded y Llwybr Arfordir i gamu oddi arni am ychydig ac ymweld â chi?

- Beth yw personoliaeth eich busnes – tawel ac ymlaciol, traddodiadol, unigryw neu'n tanio ar adrenalin? Mae angen i'r fideo adlewyrchu hynny.

- Ydy'ch busnes yn ddibynnol ar dywydd/tymor? Byddwch eisiau ffilmio ar yr adeg yn y tymor ble mae'n edrych ar ei orau - yn ddelfrydol ni fydd yn glawio, bydd dail ar y coed, bydd popeth yn edrych yn ffres a glân, bydd yn edrych yn brysur gyda phobl hapus yn mwynhau beth rydych yn ei gynnig, felly bydd angen dewis yr amser gorau o'r flwyddyn i gyflawni hynny.

- Pa weithred rydych eisiau i'ch gwyliwr gymryd? Eich ffonio? Eich e-bostio? Mynd ar-lein am fwy o wybodaeth? Gwnewch yn siŵr eich bod yn cynnwys *"galwad i weithredu".*

- Cadwch y fideo'n fyr. Mae hyd at dri munud o hyd yn hen ddigon - does gan neb gyfnod canolbwyntio hirach na hynny. Rydych eisiau cyffroi'r gwyliwr gyda blas o beth sydd ar gynnig, nid cwmpasu popeth mewn manylder - dyna bwrpas y wefan neu lyfryn.

## Awgrymiadau ar ffilmio'ch fideos eich hunan:

- Yn realistig, faint o amser allwch ymrwymo iddo? Fel eich cyfrifoldebau marchnata eraill, mae'n ymrwymiad arall mae'n rhaid i chi ei amserlennu. Hwyrach bydd rhaid amserlennu slotiau amser penodol lawn hefyd - os rydych eisiau ffilmio pobl yn gwneud gweithgaredd, bydden nhw yno ar ddydd ac amser penodol - a bydd rhaid i chi fod hefyd!

- Cynlluniwch sut bydd eich fideo'n rhedeg o'r cychwyn i'r diwedd. Hwn yw'r *"bwrdd stori"* - rhestr o gynnwys a golygfeydd yn y drefn byddent yn ymddangos.

- Meddyliwch am y math o fideo rydych eisiau - dim ond delweddau gyda thrac cerddoriaeth? Delweddau a thros lais? Pobl yn cael eu ffilmio am beth maen nhw'n wneud, yn siarad â'r camera, neu'n siarad â rhywun *"oddi ar y camera"* fel cyfweliad newyddion deledu?

  Gall y cyntaf o'r rhain fod yn llai diddorol os nad ydych yn ofalus, tra bydd pobl yn siarad yn fywiog am y profiad gawson nhw gyda chi'n fwy difyr ac yn rhoi mewnwelediad llawer gwell i'ch busnes.

EWCH NÔL I'R CYNNWYS

# Llwybr Arfordir Cymru
Defnyddio Fideo

EWCH NÔL I'R CYNNWYS

- Offer – mae'ch ffôn symudol yn iawn! Mae camera fideo'n fwy amlbwrpas os gallwch gael gafael ar un. Ond y cynnwys yw'r peth pwysicaf.

- Ystyriwch fuddsoddi mewn meicroffon ar gyfer eich ffôn symudol. Un o arwyddion fideo cartref yw prin gallwch glywed beth mae pobl yn ei ddweud. Bydd meicroffon ansawdd dda yn codi ansawdd a phroffesiynoldeb eich fideo'n syth.

- Mae angen i chi olygu yn hytrach na phwyso *"record"* a gobeithio am gorau. Nid yw fideo heb ei olygu'n edrych yn broffesiynol. Mae yna ddigon o becynnau golygu rhad, hawdd i'w defnyddio ar-lein. Maent yn cymryd buddsoddiad amser i arfer â'u defnyddio, ond bydd y canlyniadau o ran ansawdd y ddelwedd a'r sain werth o.

**Beth i ffilmio**

- Eich cwsmeriaid, yn dweud wrthych ba mor wych mae'u profiad wedi bod

- Chi fel perchennog yn esbonio'ch busnes ac yn croesawu pobl iddo, neu'n siarad am gynnig arbennig. Cewch rywun i'ch cyfweld - mae'n haws na siarad â'r camera

- Cyfweliadau staff – *"Fi yw'r prif gogydd yma a fy hoff bryd i'w goginio yw... a dyma fo yma ar y pentan..."*

- Cyfleusterau – dangoswch gwsmeriaid beth sydd gennych

- Digwyddiad arbennig gawsoch, yn dangos y digwyddiad ac yn cynnwys sylwadau gan gwsmeriaid

- Gwahoddwch gwsmeriaid i yrru eu fideos o amseroedd hwyliog yn eich busnes i chi, a golygwch hwy i mewn i gasgliadau byr

- Does dim angen i chi ffilmio'r Llwybr Arfordir ei hun - mae delweddau stoc ar gael i lawr lwytho o Lwybr Arfordir Cymru fel rhan o'r Pecyn Cymorth hwn

LLYFRGELL ASEDAU CROESO CYMRU

- Ystyriwch sut bydd cynnwys eich fideo'n dylanwadu gwylwyr – meddyliwch am eich cyfrifoldeb wrth annog mwynhad diogel Llwybr Arfordir Cymru

**Golygu**

- Ceisiwch beidio aros ar un saethiad/ongl – cofiwch wrth ffilmio i gael sawl safbwynt gwahanol o'r un peth a'u golygu mewn i gyfres o saethiadau sy'n newid yn rheolaidd i gynnal diddordeb

- Cadwch eich fideo'n fyr. Unrhyw beth o 30 eiliad i 3 munud ar y mwyaf. Y byrraf y clip y gorau ar gyfer cyfryngau cymdeithasol

- Mae'n well cael hanner dwsin o glipiau byr iawn ar eich gwefan, ar gael i'w gwylio ar wahân, nag un fideo hir iawn. Bydd mwy o bobl yn gwylio fideo byr hyd y diwedd ac yn sylwi'r galw i weithredu.

- Defnyddiwch gerddoriaeth rad heb hawlfraint ar gael ar y we fel cefndir i'ch fideos.

Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path



# Llwybr Arfordir Cymru

## Datblygu Ymweliadau Ymgyfarwyddo Cyfryngau

**Llwybr Arfordir Cymru**
Datblygu Ymweliadau Ymgyfarwyddo Cyfryngau

# Datblygu Ymweliadau Ymgyfarwyddo Cyfryngau

**Mae ymweliadau ymgyfarwyddo cyfryngau, pan rydych yn gwahodd aelodau penodol o'r cyfryngau i ymweld â'ch busnes, yn aml dros gwpl o ddyddiau, yn ffordd wych o hyrwyddo'ch cwmni.**

Mae Croeso Cymru, eich tîm twristiaeth awdurdod lleol a Llwybr Arfordir Cymru i gyd yn trefnu ymweliadau fel hyn - felly cysylltwch i weld os caiff eich busnes gymryd rhan. Mae gweithio gyda phartneriaid yn cymryd gofal o lawer o'r gofid o drefnu ymweliad a byddwch yn sicr bod llawer o ystyriaeth wedi ei roi i ddyfeisio rhaglen ddiddorol ac amrywiol i'r ymwelwyr.

Fodd bynnag, os ydych yn teimlo bod gennych stori ddigon da i'w adrodd gallwch ystyried trefnu gwibdaith cyfryngau eich hun trwy wahodd newyddiadurwr, blogwr neu ysgrifennwr teithio i ddod i brofi popeth sydd gennych i gynnig. Gyda chynllunio gofalus gwnewch ffeindio nad yw'n rhy anodd.

Gwnewch restr o beth sy'n ddiddorol am eich busnes - sut mae'n wahanol i rai eich cystadleuwyr? Pa gynlluniau sydd gennych ar gyfer y dyfodol a pha fuddsoddiadau rydych wedi eu gwneud yn barod? Bydd meddwl yn y ffordd yma'n helpu i chi weld beth yn eich busnes sydd â diddordeb newyddion - y wybodaeth bydd yn gwneud i newyddiadurwr ddweud: *"Mae hynny'n ddiddorol - dwi eisiau sgwennu am hynny".*

Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi digon o gyfle i unrhyw un rydych yn ei wahodd i brofi holl agweddau eich busnes ond hefyd i brofi digwyddiadau a phrofiadau sy'n gyflenwol i beth rydych chi'n ei wneud. Wedi'r cwbl does neb yn archebu gwyliau penwythnos mewn gwesty dim ond i dreulio dau ddiwrnod tu fewn. Mae'r rhan fwyaf o ymwelwyr eisiau defnyddio'r gwesty fel canolfan wrth iddynt brofi digwyddiadau a gwasanaethau yn yr ardal gyfagos.

Dyna pam gall gysylltu gyda Llwybr Arfordir Cymru fod mor ddefnyddiol gan ei fod yn rhoi llawer o resymau dros ymweld â'ch ardal gan roi rhesymau ychwanegol i chi ar gyfer hyrwyddo'ch busnes.

Sicrhewch eich bod yn darparu ychydig o amser di-fynd yn eich rhaglen - gan adael i newyddiadurwyr fforio ar ben ei hunain. Peidiwch feddwl bod rhaid i chi lenwi pob munud gyda gweithgaredd. Pwysicaf i gyd, gwnewch yn siŵr eich bod yn eu bwydo. Hawdd os ydych yn fwyty neu westy, ond beth os atyniad ymwelwyr ydych chi? Ffordd dda o ddatrys y broblem yw gweithio gyda bwyty lleol gydag enw da a dyfeisio ymweliad ar y cyd.

Wrth benderfynu pryd i drefnu eich ymweliad cofiwch fod amseroedd cynhyrchu ar gyfer y rhan fwyaf o gyhoeddiadau'n gallu bod yn sawl wythnos. Ar gyfer rhai cylchgronau mae'n debygol o fod ychydig fisoedd - felly cynlluniwch o flaen amser.

Cytunwch gyda'ch ymwelwyr yn union beth fyddwch yn ei ddarparu ac os oes unrhyw beth mae angen iddynt dalu amdano. Bydd hyn yn osgoi unrhyw gamddealltwriaeth ac annifyrrwch hwyrach ymlaen.

Er enghraifft, bydd y rhan fwyaf o ymweliadau yn cwmpasu llety, bwyd a chost unrhyw ymweliadau a phrofiadau, ond ddim o angenrheidrwydd unrhyw beth rhagor megis diodydd. Penderfynwch o flaen llaw am beth fyddwch yn talu a gwnewch hyn yn glir i'ch ymwelwyr.

Yn olaf, cadwch mewn cysylltiad. Peidiwch anghofio am eich cysylltiadau cyfryngau'r foment maent yn gadael. E-bostiwch nhw i ddiolch iddynt am ymweld a gofyn a oes unrhyw wybodaeth bellach mae angen arnynt. Byddwch yn barod i yrru ffotograffau a ffeithiau a ffigyrau ychwanegol os mae angen. Bydd dolenni yn y Pecyn Cymorth yma'n darparu ffotograffiaeth syfrdanol o Lwybr Arfordir Cymru a'r arfordir.

Mae'n bwysig cydnabod dylai ymweliad ymgyfarwyddo cyfryngau fod yn rhan o strategaeth cyfryngau – dim ond un o'r ffyrdd rydych yn adeiladu a chynnal perthnasau gyda newyddiadurwyr allweddol.

EWCH NÔL I'R CYNNWYS

# **Llwybr Arfordir Cymru** Datblygu Ymweliadau Ymgyfarwyddo Cyfryngau



### Gweithio gyda threfnydd teithiau a denu ymwelwyr rhyngwladol

Os ydych yn ceisio cyrraedd cwsmeriaid rhyngwladol drwy'r fasnach deithio, gallwch gael cymorth gan Groeso Cymru i gefnogi a thyfu'ch busnes.

### Buddion meddwl yn rhyngwladol yw:

- Helpu chi i gydbwyso natur dymhorol eich busnes
- Mae ymwelwyr rhyngwladol, ar gyfartaledd, yn gwario mwy
- Mae amseroedd cynllunio hirach ar gyfer ymweliadau rhyngwladol yn galluogi chi i gynllunio ymlaen

### I gymryd rhan:

- Cofrestrwch eich cynnyrch yn rhyngwladol ar y gwefan hyrwyddwyd yn fyd-eang

  CROESO CYMRU

- Diweddarwch Croeso Cymru gyda'ch newyddion a datblygiadau drwy e-bostio productnews@gov.wales
- Cofrestrwch ar gyfer cylchlythyrau yma

  CYLCHLYTHYR

- Dewch yn aelod o UKinbound a Chymdeithas Trefnwyr Teithiau Ewropeaidd (ETOA) i gael mynediad i weithdai Busnes i Fusnes, seminarau a digwyddiadau rhwydweithio.
- Mae gan Visit Britain ystod eang o adnoddau i'ch cefnogi wrth i chi farchnata'ch busnes yn rhyngwladol. Ewch i

  VISIT BRITAIN

  am fwy o wybodaeth.

### Cofiwch ddilyn:

**@VisitWalesBiz**
**@VisitWalesTrade**
**@MeetinWales**
**@VisitWales**
**@VisitBritainBiz**
**@VisitBritainPR**
**@VisitBritain**

EWCH NÔL I'R CYNNWYS

Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path



# Llwybr Arfordir Cymru

## Manteisio ar y Tymhorau

# Manteisio ar y Tymhorau

**Mae Llwybr Arfordir Cymru'n rhoi cyfle gwych i chi ymestyn y tymor ymwelwyr. Er enghraifft, mae gwanwyn cynnar a hydref hwyr yn amseroedd gwych ar gyfer cerdded y Llwybr Arfordir, gan gynnig newidiadau golygfeydd dramatig naturiol a moroedd gwyllt.**

Trwy roi rheswm go iawn i gwsmeriaid i ymweld â chi allan o'r tymor, gallwch greu cyfleoedd newydd i ymestyn eich busnes. Pam ddim cysylltu â'r cwsmeriaid sy'n ymweld â chi yn yr haf gyda chynnig arbennig ar gyfer *"Gwyliau adfywiol yn cerdded y Llwybr Arfordir"* neu *"Teithiau cerdded gaeafol ar hyd y Llwybr Arfordir"?* Neu beth am gynnig *"Gwyliau Gwylio Storm"* ym misoedd y gaeaf? Mae gan Gymru ddigonedd o dywydd cyffrous bydd yn apelio at ffotograffwyr ac artistiaid.


Rydym yn gweithio'n agos â phartneriaid i hyrwyddo digwyddiadau a gwyliau, gweithgareddau a gynhelir ar Lwybr Arfordir Cymru. Gallwch ddod o hyd i'r rhain yn Llwybr Arfordir Cymru / Digwyddiadau. Os ydych chi'n trefnu digwyddiadau neu weithgareddau cofiwch gysylltu fel y gallwn roi sylw iddynt Llwybr Arfordir Cymru / Awgrymu Digwyddiad.

Ar gyfer busnesau ar hyd rhannau o'r Llwybr Arfordir sy'n dathlu treftadaeth ddiwydiannol wrth ochr golygfeydd trawiadol, mae gwyliau allfrig yn gadael i chi hyrwyddo'r Llwybr Arfordir ynghyd ac ystod o weithgareddau eraill megis dathliadau.

Os ydych yn seiliedig yn Ne Ddwyrain Cymru pam na wnewch chi sôn wrth gwsmeriaid eu bod yn gallu cymryd dro ffres ar hyd Morglawdd Bae Caerdydd cyn mwynhau hwyl y Farchnad Nadolig a Gŵyl y Gaeaf? Mae prif drefi eraill ar hyd yr arfordir hefyd yn cynnal marchnadoedd Nadolig, dathliadau Pasg a ffeiri hydref. Felly cysylltwch gyda'r swyddfa dwristiaeth yn eich awdurdod lleol i weld beth sy'n digwydd yn eich ardal.

Bydd y gweithgareddau yma'n apelio at gerddwyr ac wrth ddweud wrthynt yn union beth sydd ar gynnig yn eich ardal rydych yn cynyddu'r rhesymau iddynt ymweld â chi.

Pam na wnewch greu tudalen dyddiadur ar eich gwefan sy'n amlygu'r holl weithgareddau yn eich ardal. Gallwch berswadio'r rhai sy'n cerdded y llwybr i yrru lluniau o'u gwyliau i chi er mwyn eu hychwanegu i'ch deunyddiau hyrwyddol.



**Am fwy o syniadau gwelwch Bierau a Phromenadau**

PIERAU A PHROMENADAU

EWCH NÔL I'R CYNNWYS

**Llwybr Arfordir Cymru**
Manteisio ar y Tymhorau

# Mynediad i bawb

**Gall pawb fwynhau Llwybr Arfordir Cymru. Ar hyd ei 870 o filltiroedd, ceir digonedd o ddarnau sy'n addas ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn, teuluoedd â bygis ac ymwelwyr â symudedd cyfyngedig.**

Fe welwch hefyd ddigonedd o leoedd parcio, golygfannau hawdd eu cyrraedd a'r holl gyfleusterau sydd eu hangen ar gyfer diwrnod gwych yn yr awyr agored.

Mae ein timau lleol yn gwella mynediad i'r llwybr yn rheolaidd – ewch i Llwybr Arfordir Cymru / Mynediad hwylus

MYNEDIAD HWYLUS

Hefyd dilynwch taith ysbrydoledig Amanda Harris @amandascoastalchallenge ar instagram. Mae Amanda yn teithio ar hyd rhannau or llwybr yn ei chadair olwyn ac yn rhannu ei phrofiadau ac yn awgrymu teithiau i rhai sy'n defnyddio cadair olwyn.

AMANDA HARRIS



EWCH NÔL I'R CYNNWYS

Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path



# Llwybr Arfordir Cymru


## Cynnwys y Staff

# Cynnwys y Staff

**Mae sicrhau bod staff yn rhannu eich gwerthoedd busnes yn bwysig iawn, felly treuliwch amser ar ddiweddaru'r staff am y busnes, beth yw'ch uchelgeisiau ac amcanion busnes a sut gallent chwarae'u rhan. Er enghraifft, wrth farchnata eich cynnyrch a gwasanaethau i gerddwyr Llwybr Arfordir Cymru, gwnewch yn siŵr bod eich staff wedi eu briffio'n dda ar beth sydd gan y Llwybr Arfordir i'w gynnig, lle gall gwsmeriaid ddod o hyd i wybodaeth bellach, megis manylion teithiau cerdded, neu amserlenni bys a llanw.**

Gwnewch yn siŵr bod eich staff yn eich helpu i hyrwyddo'ch busnes trwy gynnig gofal cwsmer teilwng. Darganfyddwch nid yn unig byddwch yn gallu cynnig gwasanaeth gwell, ond bydd cael mwy i wneud gyda hyrwyddo'r busnes yn rhoi hwb i'ch staff.

Pam ddim annog staff i gymryd lluniau o'u hoff daith gerdded arfordirol a phostio nhw ar y wefan? Yn y modd yma byddant yn dod nid yn unig yn llysgenhadon busnes ond yn llysgenhadon Llwybr Arfordir Cymru - yn wybodus a chyfeillgar â chwsmeriaid. Ased enfawr i unrhyw fusnes.



EWCH NÔL I'R CYNNWYS

Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path



# Llwybr Arfordir Cymru

## Gweithio ar y Cyd

# Gweithio ar y Cyd

**Mae gwerth siarad â pherchnogion busnesau eraill ar hyd Llwybr Arfordir Cymru i weld sut gallwch gymryd dynesiad ar y cyd i'ch gwasanaethau marchnata. Bydd mentrau marchnata ar y cyd yn eich helpu i gyrraedd cynulleidfa fwy trwy gyfuno'ch cronfa ddata cwsmeriaid gyda rhai eich partneriaid busnes dewisol. Gallent hefyd ymestyn ystod y cynnyrch a gwasanaethau gallwch gynnig.**

Mae marchnata ar y cyd gyda phartneriaid busnes addas yn sicrhau'ch bod yn rhoi gwybodaeth fwy diddorol ar eich gwefan ac yn eich deunyddiau marchnata, trwy gynnwys cynnyrch a gwasanaethau eich partneriaid busnes wrth ochr eich rhai chi. Bydd yn gwneud eich cynnig llawer mwy deniadol.

Er enghraifft mae westwalesholidaycottages.co.uk yn cynnig talebau gostyngiad ar gyfer atyniadau a busnesau o gwmpas Cymru i ymwelwyr sy'n trefnu gwyliau gyda nhw. Os ydych yn gallu cynnig del arbennig drwy daleb, mae'r system yn rhad ac am ddim i ymuno â hi a byddwch yn cael ymuno â'r rhestr am ddim yn yr adran 'Pethau i'w Gwneud' o'u gwefan. Am fanylion cysylltwch ag Amy Williams Rheolwr Marchnata, West Wales Holiday Cottages **admin@westwalesholidaycottages.co.uk**



**Felly, pam na wnewch chi geisio:**

- Dewis partneriaid busnes addas i weithio â hwy
- Datblygu cynigion tymhorol
- Darparu dolenni o'ch gwefan i rai partneriaid dewisol
- Creu hyrwyddiad ar y cyd - er enghraifft, gallai gwesty ac atyniad ymwelwyr hyrwyddo ar y cyd penwythnos gerdded am gyfradd arbennig gyda mynediad gostyngedig i'r atyniad
- Darparu dolenni o'ch gwefan i wefannau defnyddiol eraill – er enghraifft, cysylltu i *"Pethau i wneud"* Llwybr Arfordir Cymru.

PETHAU I WNEUD

EWCH NÔL I'R CYNNWYS

Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path



# Llwybr Arfordir Cymru

## Deunyddiau Marchnata

Llwybr Arfordir Cymru
Deunyddiau Marchnata

# Deunyddiau Marchnata

**Torrwch a gludwch neu lawr lwythwch yr adnoddau yma ar gyfer eich gwefan, gweithgaredd cyfryngau cymdeithasol, taflenni a phorwyr llofft i roi gwybodaeth werthfawr i'ch ymwelwyr bydd yn mwyhau eu hymweliad.**

### Defnyddio'r Logo


Gallwch ofyn am gael defnyddio ein logos yn eich marchnata er mwyn hyrwyddo'r llwybr yn gadarnhaol.

Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

CROESO I GERDDWYR
WELCOMING WALKERS

Gellir lawrlwytho a defnyddio "logo Llwybr Arfordir Cymru Croesawu Cerddwyr" ar eich gwefan neu yn eich llenyddiaeth farchnata.

Mae gennym hefyd boster gallwch ei arddangos, gellir ei lawr lwytho yma.




EWCH NÔL I'R CYNNWYS

# Llwybr Arfordir Cymru
Deunyddiau Marchnata

## E-gylchlythyr
### Creu eich e-gylchlythyrau eich hun

Mae yna sawl ffordd i greu eich cylchlythyrau eich hunain i yrru i'ch cwsmeriaid a'ch cyflenwyr. Os oes gennych y cyllid, gallwch gael eich cylchlythyrau wedi'u dylunio a defnyddio platfformau marchnata megis Mailchimp.

Fodd bynnag, os ydych eisiau cadw costau i lawr yna mae Microsoft Word yn cynnig ystod o dempledi cylchlythyr gallwch eu defnyddio, gydag ychydig o ymarfer, i greu cylchlythyrau deniadol gallwch yrru drwy e-bost neu hyd yn oed brintio copïau caled. Gallwch hefyd ddefnyddio Microsoft Word i gynhyrchu ystod o ddeunyddiau marchnata eraill, megis posteri.



PARC GWYLIAU DEDWYDD
CYLCHLYTHYR

RHIFYN 1 | MAWRTH 2019

YN NEWYDD AR GYFER 2019

Agoron ni ystafell sychu newydd i chi gael cadw eich cit i gyd yn gynnes a sych ar ôl diwrnod caled o gerdded!

DARGANFOD

2019 yw Blwyddyn Darganfod Cymru – felly dewch i ddarganfod ein llu o atyniadau, anturiaethau a phrofiadau! https://croeso.cymru/

MAE'N FFAITH

Mae mynd am dro hamddenol am hanner awr yn llosgi 75 calori.

Mae cerdded am hanner awr yn llosgi 99 ac mae hanner awr o gerdded cyflym yn llosgi 150 calori.

MAE CROESO I GERDDWYR YNG NGHYMRU!

O'r ffin Gymreig yn y Gogledd i Gas Gwent yn y de ddwyrain, mae Llwybr Arfordir Cymru'n cynnig 870 milltir o arfordir i ddewis ohono, i bobl o bob gallu i gychwyn cerdded eu ffordd i iechyd.

Gall cerdded bywiog wella iechyd meddwl a chorfforol a lles, ac mae'n rhoi cyfle ffantastig i bobl o bob oed ffurfio arferion ymarfer corff positif. Yn ogystal â'r enillion iechyd a lles, mae Llwybr Arfordir Cymru'n cynnig y cyfle i fforio'r awyr agored a'r amgylchedd naturiol a hwyrach ddarganfod gweithgareddau newydd i gymryd rhan ynddynt.

Yma ym Mharc Gwyliau Dedwydd mae milltiroedd o deithiau cerdded godidog ar ein stepen ddrws. Felly cysylltwch rŵan! www.pgd.com

I ddechrau agorwch Word ar eich cyfrifiadur a dewis templed cylchlythyr. Byddwch yn gweld cyfarwyddiadau ar sut i greu eich cylchlythyr drwy ychwanegu lluniau a straeon. Gwnewch yn siŵr bod beth rydych yn rhoi yn eich cylchlythyr yn berthnasol ac yn ddiddorol.

Y ffordd orau i feirniadu hyn yw gofyn i'ch hun: *"os wyddwn i ddim am y busnes yma byddai diddordeb gen i mewn darllen y stori yma?"* Os mai byddai yw eich ateb, rydych ar y trywydd iawn.

- Crëwch enw ar gyfer eich cylchlythyr sy'n adlewyrchu'n gywir natur eich busnes.
- Peidiwch â bod yn rhy benodol gyda'r dyddiad - mae Gwanwyn 2019 yn ddigonol.
- Dewiswch luniau o ansawdd dda, sydd un ai yn dweud eu stori eu hunain, neu yn helpu i ddarlunio copi rydych wedi ei ysgrifennu.
- Ysgrifennwch am bethau mae cwsmeriaid yn hidio amdanynt – cynnyrch neu wasanaethau newydd, cynigion arbennig, agoriad sba iechyd newydd neu estyniad i oriau agor ayyb.
- Gwnewch o'n bersonol – mae pobl yn hoffi darllen am bobl.
- Rhowch fanylion cyswllt ar gyfer eich busnes – enw, rhif ffôn, e-bost a gwefan, mewn safle amlwg.
- Gyrrwch gylchlythyrau'n aml, ond nid rhy aml - mae tri'r flwyddyn yn ddelfrydol.
- Os ydych yn defnyddio e-bost, sicrhewch eich bod yn cydymffurfio â'r Rheolau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR). Am fwy o wybodaeth am hyn cliciwch yma

GDPR

EWCH NÔL I'R CYNNWYS

# **Llwybr Arfordir Cymru** Deunyddiau Marchnata

**Neges Croeso i Gerddwyr mewn ieithoedd tramor allweddol**

**Saesneg:** Walkers Welcome

**Ffrangeg:** Marcheurs bienvenus

**Almaeneg:** Wanderer willkommen

**Eidaleg:** Camminatori benvenuti

**Iseldireg:** Wandelaars welkom

**Sbaeneg:** Caminantes bienvenidos

**Buddion iechyd cerdded Llwybr Arfordir Cymru**

I rai pobl, gall mynd allan i'r awyr agored fod yn achubwr bywyd go iawn. Mae grwpiau sy'n hyrwyddo cerdded fel ffordd o wella iechyd yn ffenomenon cynyddol ar hyd Llwybr Arfordir Cymru.

O'r ffin Gymreig yn y gogledd i Gas-gwent yn y de ddwyrain, mae Llwybr Arfordir Cymru yn cynnig 870 milltir o arfordir i ddewis ohoni, ar gyfer pobl o bob gallu i gychwyn cerdded eu ffordd i iechyd.

Gall cerdded bywiog fod yn fuddiol i iechyd meddwl a chorfforol a lles, ac mae'n rhoi cyfle i bobl o bob oed a gallu i ffurfio arferion ymarfer corff positif. Yn ogystal â dod a buddion iechyd a lles, mae Llwybr Arfordir Cymru'n cynnig cyfle i fforio'r awyr agored a'r amgylchedd naturiol a hwyrach ddarganfod gweithgareddau newydd i gymryd rhan ynddynt.

Mae cerdded yn fywiog am 30 munud y dydd, pum diwrnod yr wythnos yn un ffordd o gwrdd argymhellion arbenigwyr meddygol ar gyfer gweithgaredd corfforol i oedolion.

Does ryfedd, felly, bod tirwedd arfordirol syfrdanol Llwybr Arfordir Cymru'n cynnig y lleoliad perffaith i grwpiau megis y Prosiect Walkability yn Sir Benfro.

**ARFORDIR SIR BENFRO**

Wedi'i sefydlu gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a Chwaraeon Cymru, mae'n helpu pobl i ddechrau cerdded a gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd cerdded sydd ar gael iddynt.

Yn ogystal â rhoi hwb i iechyd corfforol, mae troedio Llwybr Arfordir Cymru'n gallu gwneud gwyrthiau i'ch iechyd meddwl. Bu arolwg gan yr elusen iechyd meddwl, MIND, ganfod:

- Dywedodd 90% o bobl gymerodd rhan mewn gweithgareddau ymarfer corff gwyrdd mai'r cyfuniad o natur ac ymarfer corff sydd bwysicaf wrth bennu sut maent yn teimlo.
- Sylwodd 94% o bobl bod ymarfer corff gwyrdd yn gwella'u hiechyd meddwl.
- Sylwodd 90% o bobl bod cymryd rhan mewn gweithgareddau ymarfer corff gwyrdd yn fuddiol i'w hiechyd corfforol.

I ddarganfod taith cerdded ymwelwch ag Archwilio'r Llwybr

**Panel Ffeithiau Cerdded**

Sawl calori allaf i losgi?

- Mynd am dro hamddenol am hanner awr - 75 calori
- Cerdded am hanner awr - 99 calori
- Hanner awr o gerdded cyflym - 150 calori

*Tarddiad: O leiaf pum gwaith yr wythnos, Adran Iechyd, 2004, ar gyfer person cyffredin yn pwyso 9.5 stôn.*

EWCH NÔL I'R CYNNWYS

## Iechyd a diogelwch

Achubwch ar y cyfle i atgoffa'ch cwsmeriaid am bwysigrwydd aros yn ddiogel a bod yn antur gall wrth gerdded Llwybr Arfordir Cymru. Mae dangos eich bod yn hidio am ddiogelwch eich cwsmeriaid yn bwysig. Cynhwyswch y 10 Awgrym Da yma ar eich gwefan, yn eich taflenni marchnata, neu yn eich porwr llofft.

1. Byddwch yn hysbys o le rydych yn mynd - gwiriwch fapiau a gwefannau, cadwch lygad allan am arwyddion rhybudd a gofynnwch am beryglon lleol
2. Gwiriwch y tywydd a'r llanw pan ar fin gadael
3. Cynlluniwch eich taith a gadewch i bobl wybod pryd rydych yn disgwyl dychwelyd. Gwnewch yn siŵr bod eich ffôn symudol wedi'i wefrio
4. Ceisiwch gynnal eich lefelau egni trwy fynd a bwyd a dŵr gyda chi
5. Gwnewch yn siŵr bod gennych yr offer cywir. Gwisgwch ddillad gwrth-ddŵr sych o ansawdd uchel - ewch a sanau a thopiau sych, hyd yn oed os yw'r tywydd yn edrych yn dda. Gall newid yn gyflym! Gwisgwch esgidiau pwrpasol ar gyfer cerdded. Mae'r esgidiau anghywir yn ddrwg i'ch traed ac yn arwain at faglu.
6. Cariwch eli haul gyda chi – cofiwch gall wyntoedd cryf achosi llosg haul hefyd.
7. Cymrwch ofal i beidio llithro, baglu neu syrthio. Arhoswch yn glir o ymylon a gordoed ar hyd y Llwybr Arfordir - peidiwch â dringo clogwyni nac eistedd oddi tanynt.
8. Cymrwch ofal wrth gerdded ar hyd ffyrdd neu wrth groesi ffyrdd a rheilffyrdd.
9. Gallwch ddod o hyd i fyd newydd o fywyd gwyllt ar draethau. Cofiwch edrych nid cyffwrdd.
10. Byddwch yn hysbys o sut a phryd i gael help - mewn argyfwng ffoniwch 999 neu 112 a gofyn am wyliwr y glannau.

### Awgrymiadau da ar gyfer cerddwyr cŵn

- Cadwch gŵn ar dennyn yn enwedig pan yn agos i ymylon clogwyni neu afonydd sy'n llifo'n gyflym
- Os yw eich ci'n mynd i'r dŵr neu'n mynd yn sownd mewn mwd, peidiwch fynd ar ei ôl. Symudwch i le gall y ci gael ato yn ddiogel a'u galw - mwy na thebyg wneith ddianc ar ben ei hun.

Os ydych yn poeni am eich ci, galwch 999 neu 112 a gofyn am wyliwr y glannau.

EWCH NÔL I'R CYNNWYS

# **Llwybr Arfordir Cymru** Deunyddiau Marchnata

## Parchwch y Dŵr

Os ydych yn syrthio'n annisgwyl i ddŵr oer, ymladdwch eich greddf i gwffio neu nofio'n galed. Y peth gorau i wneud yw ymlacio ac arnofio ar eich cefn i ddal eich anadl. Unwaith i sioc y dŵr oer basio, galwch am gymorth, canfyddwch rywbeth hynawf i gydio ynddo, neu nofiwch i ddiogelwch os ydych yn gallu.

PARCHWCH Y DŴR

Am fwy o wybodaeth ynglŷn â sut i fwynhau'ch taith cerdded yn ddiogel, ewch i:

DIOGELWCH RNLI

CYNLLUNIO'CH TAITH

NODWYR LLWYBR

Cysylltwch gyda'ch gorsaf bad achub RNLI leol neu dîm achub bywydau RNLI **#ParchwchyDŵr**

Mentro'n Gall Cymru Pecyn Adnoddau ar gyfer Busnesau: **#MentronGall**

## Mapiau & Theithiau Cerdded

Rhestrwyd ar gyfer pob rhan o'r llwybr ar wefan Lwybr Arfordir Cymru.

## Delweddau, ffotograffau a fideos llwybr arfordir cymru - gellid ei llwytho i lawr

Mae delweddau swyddogol y gellir eu lawrlwytho ar gael i hyrwyddo Cymru a'r llwybr yn gadarnhaol o gwefan asedau Croseo Cymru

LLYFRGELL ASEDAU CROESO CYMRU

## Hygyrchedd/gwybodaeth anabl

Rhowch wybodaeth i'ch cwsmeriaid ar ba mor hygyrch yw Llwybr Arfordir Cymru ar gyfer y rhai hynny ac anableddau. Yn dibynnu ar lefel yr anabledd, nid yw'r Llwybr Arfordir i gyd yn hawdd i'w lywio. Ond gwelwch deithiau cerdded addas yma:

CERDDED

## Amserlenni llanw

Os ydych eisiau darparu'ch cwsmeriaid ag amseroedd llanw yna mae'r wybodaeth ar gael yma

AMSERLENNI LLANW

## Trysorau cudd

Oes gennych hoff lecyn o'r Llwybr wrth eich ymyl? Yna rhannwch o gyda'ch gwesteion - yn eich llyfryn, ar eich gwefan neu yn eich gweithgaredd cyfryngau cymdeithasol.

Dyma ychydig o awgrymiadau i gychwyn:

- Gwaith Haearn Stepaside a Glofa'r Gelli, Sir Benfro
- Y golygfeydd o Fryn Eisteddfod yng Nghlynnog Fawr, Gwynedd
- Y lluniaeth yng Nghaffi Traeth Poppit ar ddiwedd y daith yn Llandudoch, Sir Benfro
- Rhan y Llwybr sy'n ymestyn rhwng Llanrhystud ac Aberystwyth - un o'r rhannau o'r Llwybr a gerddir lleiaf aml
- Trochi'ch traed yn y môr yn nhraeth Wallog, rhwng Clarach a'r Borth, Ceredigion
- Y golygfeydd o Goultrop a thua Little Haven o'r Llwybr i'r de o Little Haven
- Yr olygfa gogledd o The Sheepfields, uwchben The Point, Little Haven
- Oriel The Boathouse Gallery, Heol Sant Ffraid, Little Haven
- Y caffi sydd ar agor i'r cyhoedd ar safle campio a charafanau Mynydd Mawr yn Aberdaron yn ymyl Pwllheli ar Ben Llyn gyda golygfeydd dros Ynys Enlli

Gwelwch:

TEITHIAU CERDDED HARDD

EWCH NÔL I'R CYNNWYS

### Ail-lenwi Cymru

Ymgyrch sydd wedi ennill llu o wobrau i atal llygredd plastig yn llygad y ffynnon yw Ail-lenwi Cymru trwy hwyluso ailddefnyddio ac ail-lenwi eich potel yn lle prynu un newydd. Mae'r cynllun yn cael cefnogaeth lawn gan Lywodraeth Cymru a'r cwmnïau dŵr Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy.

Os ydych chi'n fusnes ac os oes gennych chi dap y gall y cyhoedd ei ddefnyddio, gallwch gofrestru eich hun fel gorsaf ail-lenwi ar yr ap Ail-lenwi – mae'n syml i'w wneud ac yn rhad ac am ddim. O ganlyniad byddwch yn elwa drwy gael mwy o amlygrwydd a mwy o ymwelwyr yn galw.

Mae sticeri ffenestr glas yn cael eu harddangos gyda balchder gan berchnogion busnesau lleol i ddangos eu hymrwymiad i leihau plastigion untro, ac mae'r rhain hefyd yn ffordd o 'groesawu' pobl a allai fod yn ansicr neu'n ofni gofyn am ail-lenwi eu potel ddŵr am ddim.

Nid caffis neu dai bwyta yw'r Gorsafoedd Ail-lenwi hyn bob tro. Ceir llyfrgelloedd, swyddfeydd asiantiaid tai, salonau gwallt, siopau cig, siopau pentref ac amgueddfeydd hefyd ar yr Ap fel Gorsafoedd Ail-lenwi.

Darllenwch fwy am sut mae busnesau a chwsmeriaid yn elwa o'r cynllun Ail-lenwi Cymru

Lawrlwythwch yr ap Ail-lenwi yma
(ar gael o Google Play ac App Store)

### Twristiaeth Gynaliadwy

Mae'r galw am ffyrdd mwy cynaliadwy o fyw ein bywydau bob dydd yn cynyddu ac nid yw mynd i ffwrdd ar wyliau yn eithriad o gwbl.

Mae pobl sy'n mynd ar eu gwyliau yn y DU yn credu y dylai busnesau twristiaeth flaenoriaethu ffyrdd mwy cynaliadwy o weithredu fel lleihau/ailgylchu gwastraff, cefnogi'r ardal leol e.e. cynnyrch lleol, a lleihau plastigau untro yn sylweddol.

Mae'r rhai sy'n ymweld â'r llwybr sydd naill ai'n bobl leol neu'n dod o'r tu allan i Gymru, yn rhoi buddion economaidd i'r ardal leol. Os gallai eich busnes chi gymryd y camau hynny i fod yn fwy ecogyfeillgar, yna byddwn i gyd yn gwneud ein rhan i helpu'r amgylchedd.

Mae Busnes Cymru wedi creu llawlyfr marchnata sy'n llawn o ganllawiau ar feysydd lle gallai eich busnes fod yn fwy ecogyfeillgar o ran dŵr, gwastraff, teithio, y gadwyn gyflenwi ac ynni.

Lawrlwytho Llawlyfr Twristiaeth Gynaliadwy Busnes Cymru




03000 6 03000
busnescymru.llyw.cymru
businesswales.gov.wales

### Ymgyrch Addo

Mae Cymru'n wlad unigryw ac amrywiol ac rydym eisiau cyfrannu at genedlaethau'r dyfodol fel eu bod yn dal i ddod yn ôl i fwynhau a chofleidio'r hyn sydd gan ein gwlad a llwybr yr arfordir i'w gynnig.

Mae ymgyrch Addo yn fenter Cymru gyfan sydd wedi'i hanelu at fusnesau, cymunedau lleol ac ymwelwyr – a'r bwriad yw eu bod yn addo buddsoddi'n emosiynol i ddiogelu'r wlad hon er mwyn osgoi problemau fel taflu sbwriel, gwersylla anghyfreithlon a phroblemau parcio.

Gan atgyfnerthu'r gwaith o hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol wrth ymweld, mae Addo yn tynnu sylw at bwysigrwydd tair thema'r Cod Cefn Gwlad – sef parchu, diogelu a mwynhau'r awyr agored.

Lawrlwytho pecyn cymorth Addo i gael mynediad at ddeunyddiau rhad ac am ddim y gellir eu lawrlwytho. Bydd y rhain yn eich helpu i groesawu ymwelwyr mewn ffordd addas, ddiogel a chyfrifol.

Addo. FY ADDEWID I GYMRU.

EWCH NÔL I'R CYNNWYS

Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path



# Llwybr Arfordir Cymru

## Esiamplau Arfer Gorau

**Llwybr Arfordir Cymru**
Esiamplau Arfer Gorau

# Esiamplau Arfer Gorau

## Gwefannau

Edrychwch ar y safleoedd hyn am ragor o syniadau.

- LAPIS HOUSE MUMBLES (Instagram)
- LAPIS HOUSE MUMBLES (Twitter)
- ABERPORTH COASTAL (Facebook)
- ABERPORTH COASTAL (Instagram)

## E-gylchlythyr
### Creu eich e-gylchlythyrau eich hun

Mae yna sawl ffordd i greu eich cylchlythyrau eich hunain i yrru i'ch cwsmeriaid a'ch cyflenwyr. Os oes gennych y cyllid, gallwch gael eich cylchlythyrau wedi'u dylunio a defnyddio platfformau marchnata megis Mailchimp.

Fodd bynnag, os ydych eisiau cadw costau i lawr yna mae Microsoft Word yn cynnig ystod o dempledi cylchlythyr gallwch eu defnyddio, gydag ychydig o ymarfer, i greu cylchlythyrau deniadol gallwch yrru drwy e-bost neu hyd yn oed brintio copïau caled. Gallwch hefyd ddefnyddio Microsoft Word i gynhyrchu ystod o ddeunyddiau marchnata eraill, megis posteri.



PARC GWYLIAU DEDWYDD
CYLCHLYTHYR
RHIFYN 1 | MAWRTH 2019

MAE CROESO I GERDDWYR YNG NGHYMRU!

O'r ffin Gymreig yn y Gogledd i Gas Gwent yn y de ddwyrain, mae Llwybr Arfordir Cymru'n cynnig 870 milltir o arfordir i ddewis ohono, i bobl o bob gallu i gychwyn cerdded eu ffordd i iechyd.

Gall cerdded bywiog wella iechyd meddwl a chorfforol a lles, ac mae'n rhoi cyfle ffantastig i bobl o bob oed ffurfio arferion ymarfer corff positif. Yn ogystal â'r enillion iechyd a lles, mae Llwybr Arfordir Cymru'n cynnig y cyfle i fforio'r awyr agored a'r amgylchedd naturiol a hwyrach ddarganfod gweithgareddau newydd i gymryd rhan ynddynt.

Yma ym Mharc Gwyliau Dedwydd mae milltiroedd o deithiau cerdded godidog ar ein stepen ddrws. Felly cysylltwch rŵan! www.pgd.com

YN NEWYDD AR GYFER 2019

Agoron ni ystafell sychu newydd i chi gael cadw eich cit i gyd yn gynnes a sych ar ôl diwrnod caled o gerdded!

DARGANFOD

2019 yw Blwyddyn Darganfod Cymru – felly dewch i ddarganfod ein llu o atyniadau, anturiaethau a phrofiadau! https://croeso.cymru/

MAE'N FFAITH

Mae mynd am dro hamddenol am hanner awr yn llosgi 75 calori.

Mae cerdded am hanner awr yn llosgi 99 ac mae hanner awr o gerdded cyflym yn llosgi 150 calori.

I ddechrau agorwch Word ar eich cyfrifiadur a dewis templed cylchlythyr. Byddwch yn gweld cyfarwyddiadau ar sut i greu eich cylchlythyr drwy ychwanegu lluniau a straeon. Gwnewch yn siŵr bod beth rydych yn rhoi yn eich cylchlythyr yn berthnasol ac yn ddiddorol.

Y ffordd orau i feirniadu hyn yw gofyn i'ch hun: *"os wyddwn i ddim am y busnes yma byddai diddordeb gen i mewn darllen y stori yma?"* Os mai byddai yw eich ateb, rydych ar y trywydd iawn.

- Crëwch enw ar gyfer eich cylchlythyr sy'n adlewyrchu'n gywir natur eich busnes.
- Peidiwch â bod yn rhy benodol gyda'r dyddiad - mae Gwanwyn 2019 yn ddigonol.
- Dewiswch luniau o ansawdd dda, sydd un ai yn dweud eu stori eu hunain, neu yn helpu i ddarlunio copi rydych wedi ei ysgrifennu.
- Ysgrifennwch am bethau mae cwsmeriaid yn hidio amdanynt – cynnyrch neu wasanaethau newydd, cynigion arbennig, agoriad sba iechyd newydd neu estyniad i oriau agor ayyb.
- Gwnewch o'n bersonol – mae pobl yn hoffi darllen am bobl.
- Rhowch fanylion cyswllt ar gyfer eich busnes – enw, rhif ffôn, e-bost a gwefan, mewn safle amlwg.
- Gyrrwch gylchlythyrau'n aml, ond nid rhy aml - mae tri'r flwyddyn yn ddelfrydol.
- Os ydych yn defnyddio e-bost, sicrhewch eich bod yn cydymffurfio â'r Rheolau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR). Am fwy o wybodaeth am hyn cliciwch yma

GDPR

EWCH NÔL I'R CYNNWYS

**Llwybr Arfordir Cymru**
Esiamplau Arfer Gorau

**Esiampl datganiad i'r wasg**
Cofiwch y rheol – esboniwch bob tro

**Pwy, Beth, Pryd, Pam, Ble a Sut**

[PENNAWD I DDAL SYLW GOHEBWYR]

# BAR CAFFI GORLLEWIN CYMRU I ROI CERDDWYR YN ÔL AR BEN FFORDD

**Mae bar caffi yng Ngorllewin Cymru'n [pwy] lansio gwasanaeth newydd [beth] wythnos nesaf [pryd] i gael cerddwyr blinedig ar eu traed unwaith eto ar ôl mwynhau diwrnod hir allan ar Lwybr Arfordir Cymru. Mae Bar Caffi Twm, Stryd Fawr, Tyddewi, [ble] yn dod a thîm o dylinwyr a thrinwyr traed yno yn ogystal â thri sba traed llawn pysgod [sut] i gwsmeriaid fwynhau'n rhad ac am ddim wrth ymlacio â diod ar ddiwedd y dydd.**

[Manylion ychwanegol] Dywedodd y perchennog Twm Jones cafodd y syniad wrth iddo siarad â chwsmeriaid oedd yn dweud eu bod wedi mwynhau eu diwrnod yn troedio rhannau o'r Llwybr Arfordir Cymru 186 milltir trwy Sir Benfro, ond eu bod ar binnau eisiau tynnu eu sanau ac esgidiau i ffwrdd ac ymlacio'u traed dolurus.

Rŵan mae wedi dod a'i dîm o arbenigwyr adfywio traed ynghyd, bydd yn lansio'r gwasanaeth ar ddydd Sadwrn, 12 Mai.

[Dyfyniad i roi difyrrwch a lliw]
*"Roeddwn eisiau rhoi'r cyfle i gerddwyr roi eu traed i fyny tra roedden nhw hefo ni yn mwynhau diod neu bryd o fwyd gyda'r nos,"* meddai. *"Felly, pob nos Sadwrn tan fis Medi, bydd gennym dîm o weithwyr proffesiynol wedi'u hyfforddi ac yn gymwys yma yn barod i roi triniaeth traed am ddim i gerddwyr wrth iddynt ymlacio.*

*"Roeddwn eisiau ffordd o ddangos i ymwelwyr ein bod yn gwerthfawrogi nhw yn ymweld â'r rhan yma o Gymru, a dwi'n gobeithio bydd hyn yn eu helpu yn ôl ar eu traed yn barod am ddiwrnod arall o gerdded arfordir chwedlonol Gorllewin Cymru."*

[Gwybodaeth o'r Pecyn Cymorth]
Mae'r Llwybr Arfordir Cymru 870-milltir yn pasio drwy rhai o olygfeydd mwyaf ysblennydd a syfrdanol Prydain, gan gynnwys 58 traeth ac 14 harbwr yn Sir Benfro yn unig, a dinas leiaf y DU - Tyddewi.

Mae'n un o asedau mwyaf y wlad gan ddenu dros 43 miliwn ymweliad y flwyddyn gyda'i olygfeydd naturiol, bywyd gwyllt a theithiau cerdded gwych - popeth o dro bach mwyn i heic go hir. Mae ymwelwyr Llwybr Arfordir yn rhoi £84 miliwn y flwyddyn yn yr economi Gymreig ac yn helpu i gefnogi mwy na 1,000 o swyddi. **[DIWEDD]**

Gwybodaeth bellach gan **Twm Jones**, rheolwr **twmjones22@gmail.com**
**0234 456375**

[Gwnewch o'n glir byddwch yn helpu'r cyfryngau i gael cyfweliadau a lluniau ar y dydd]
Mae croeso i ohebwyr a ffotograffwyr ddod i'r digwyddiad lansio am 5.30yp, Dydd Sadwrn, 12 Mai.

EWCH NÔL I'R CYNNWYS




Gwanwyn 2023 | Fersiwn 1.0